# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach


Rhifyn 464 | Medi 2025 | Pris £1.50


## Diwrnod elusennol "In it with Isaac"

Ar y 24ain o Awst cynhaliwyd diwrnod arbennig iawn i grwt ifanc lleol sef Isaac Davies, Brynhyfyrd ym Mharc Lloyd Thomas, Crymych. Roedd yna daith beicio noddedig, gyda'r adrannau iau o Glwb Rygbi Crymych yn dechrau o Garreg Waldo, yn dod â'r bêl chwarae i Grymych er mwyn parhau gyda'r gêm arbennig rhwng Tim Ieuenctid Crymych (lle bu Isaac yn gapten arno yn 2024), yn erbyn Tim Ieuenctid Sir Benfro. Fe ddaeth ffrindiau Isaac i gyd ynghŷd i ddiddanu'r dorf fawr â Nigel Owens yn dyfarnu! Ar ôl y gêm, cafwyd Ocsiwn gyda llawer o eitemau gwerth chweil! Rhwng yr ocsiwn ar-lein â'r ocsiwn yn y nos, codwyd £80,000 gyda llawer iawn o arian yn dal i gael ei gyfri! Mi fydd yr holl arian yma o fudd mawr i elusennau megis Teenage Cancer Trust ac i daith adsefydlu corfforol Isaac. Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth gefnogi y diwrnod arbennig hwn! Hoffai'r Cardi Bach longyfarch Begw Fussell am y rhan allweddol wnaeth hithe gymryd o ran trefnu'r diwrnod ac hefyd dymuno'r gore i Isaac wrth iddo frwydro i ail adfer ei iechyd.




**Pwysig**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Y Cardi Bach brynhawn Sul, Tachwedd 2il am 4 o'r gloch yng Nghanolfan Hywel Dda. Mae'n gyfarfod pwysig a gofynnir yn garedig am bresenoldeb gohebwyr ac unrhyw un â diddordeb yn nyfodol y papur. Bydd angen gwirfoddolwyr i helpu dosbarthu a chasglu hysbysebion Nadolig.



## Medal Syr T.H Parry Williams

Anrhydeddwyd Eilyr Thomas gyda Medal Syr T. H. Parry Williams - Gwobr er anrhydedd i unigolyn am ei gwaith dros ieuenctid yr ardal yn myd y canu, ac am ei gwaith yn hybu'r iaith Gymraeg, diwylliant a'i brwdfrydedd dros yr Eisteddfod. Gweler mwy ar tud 28.

## Cyflwyno siec er cof am Jill

Bu'n brofiad emosiynol iawn i ni fel teulu, ond hefyd yn un pleserus, wrth i ni gyflwyno siec o £7750 i Uned Dydd Ganser Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd, sef y cyfraniadau ddaeth i law er cof am Jill. Cawsom gyfle i ddiolch yn bersonol i'r nyrsys am y gofal arbennig wnaethant roi i Jill dros y bedair mlynedd dwetha. Roedd Jill wastod yn canmol y gofal gwych byddai yn ei dderbyn yn yr uned ac roedd y nyrsys yn cofio Jill gyda gwen, wrth son am ei hiwmor iach, brwdfrydedd heintus a'i hagwedd bositif tuag at fywyd. Diolch o galon i bawb ohonoch wnaeth gyfrannu tuag at y swm anhygoel yma, sy'n brawf o'r parch oedd gan bawb tuag at Jill. Bydd y cyfraniad yn mynd tuag at darparu gofal i bobol sy'n dioddef o ganser. Gwerthfawrogwn fel teulu eich cefnogaeth a'ch haelioni yn fowr iawn.



## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis<br>01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn<br>07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James<br>01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies<br>01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White<br>01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Jason a Gwen Lye-Phillips<br>07930 520564<br>46 Resevoir Road<br>Tanerdy<br>Caerfyrddin<br>SA31 2ER |
| **Clonc a phosau** | John Arfon Jones<br>01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott<br>01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips<br>01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas<br>01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost i'r Cardi Bach.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.


Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Ddiwedd y mis, ry'n ni yn dathlu ein pen-blwydd priodas arian. Roedd hi'n ddiwrnod braf a chynnes ar ddiwrnod olaf mis Medi yn 2000. Gan i ni briodi ym mlwyddyn y mileniwm, mae'n hawdd cofio sawl blwyddyn sydd wedi mynd heibio – wastad yr un rhif â'r flwyddyn, felly does byth esgus dros anghofio!

Ac er bod y chwarter canrif wedi hedfan, wrth hel atgofion, mae'n taro rhywun fod y flwyddyn 2000 yn wahanol byd.

Rydw i wedi bod yn twrio drwy hen bethau yn y tŷ yn ddiweddar a sylwi fod gen i gymaint o nwyddau neu declynnau na fedra i eu defnyddio bellach. Mae'n bur debyg bod casetiau wedi diflannu fwy neu lai erbyn 2000 ond roedd y cryno ddisg yn ei anterth, heb sôn am fideos VHS. Erbyn hyn, does fawr neb yn gwylio DVDs hyd yn oed, gyda gwasanaethau fel Netflix a Disney + yn darparu adloniant yn y cartref. Mae'n bur debyg mod i yn mynd I'r sinema llawer amlach ar ddechrau'r mileniwm newydd hefyd.

Roedd ffonau symudol yn dechrau dod yn fwy poblogaidd yn 2000 ond roedd ciosgs ffôn yn dal i gael eu defnyddio gyda degau ar filoedd o'r blychau coch yn y Deyrnas Unedig bryd hynny. Erbyn hyn maen nhw'n arwydd o'r gorffennol gydag ambell un yn dal i fodoli. Ac ar y nodyn hynny, rhaid canmol yr ymdrechion gyda'r ciosg ym Mhwll -Trap, sy'n wledd i'r llygaid pan ei fod wedi ei addurno â blodau lliwgar.

Mae'n rhyfeddol meddwl hefyd fod pobl yn cael ysmygu mewn bwytai a thafarndai a mannau cyhoeddus eraill o dan do yn 2000, gan na ddaeth y gwaharddiad i rym yng Nghymru tan 2007. Pwy sy'n cofio dod adref ar ôl noson allan a'ch dillad a'ch gwallt yn drewi o fwg? Teg dweud fod llawer wedi newid er gwell felly, ac eto, fe fyddai'n braf cael dychwelyd i 2000 am gyfnod byr er mwyn ail fyw gig mawr y Manics yn Stadiwm y Mileniwm i groesawu'r milieniwm newydd, er bu'n rhaid i mi wylio'r cyfan ar sgrîn deledu, gan mod i'n gweithio ar y pryd! A phwy briododd yr un diwrnod â ni ar Fedi'r 30ain ? Neb llai nag Emma Eden a'r chwaraewr tenis Pete Sampras… nid priodi ei gilydd, gyda llaw!



## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Trefina Jones
01267 211210
Tjtrefina@aol.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.com
Tabernacl Heather Jenkns
Meryl James
meryljames534@btinternet.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Eurfyl Lewis
01994 419495
eurfyllewis@btinternet.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@outlook.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Elonwy Phillips*

**CYFEILLION**

Sawl gwaith yn blentyn y cefais rybudd gan fy mam – "cofia mae gan gyfaill, gyfaill !"

Ar y dechrau d'oeddwn i ddim yn deall yr ymadrodd yn iawn o gwbwl, ac yna cael yr esboniad nad yw hi bob amser yn ddiogel i neb rannu cyfrinach gydag hyd yn oed eich ffrind gorau. Efallai eich bod chi wedi derbyn newyddion pwysig, da neu ddrwg, neu gyfrinach fawr gan rywun oedd yn ymddiried gant y cant ynddoch, ac yn dyheu am drosglwyddo'r cyfan i sylw un arall. Ond o bwyso a mesur yn fanwl iawn, os gwnewch rannu'r gyfrinach mae'n bur debyg y bydd y person hwnnw yn rhannu eto gyda'i gyfaill gorau yntau. Dyna'r ffordd mae newyddion a ddylai fod yn gyfrinach yn teithio ar lawr gwlad yn syndod o gyflym. Ac os ydych yn berson direidus fel fi, mae yna bob amser y demtasiwn i ychwanegu at y stori wreiddiol er mwyn gwneud yn siwr bod y gwrandäwr yn mynd ar y trywydd hollol anghywir.! Rhywbeth fel y "Chinese whispers" o ni yn arfer cael cymaint o hwyl wrth chwarae yn blentyn.

Oherwydd natur y gwaith y mae'r ddau ohonom sydd yn tŷ ni, yn ymwneud ag ef, y mae cadw cyfrinach bob amser yn eithriadol o bwysig. Bod yn gwbwl amhroffesiynol fyddai meiddio dweud tu allan i'r muriau, yr hyn a drafodwyd mewn ymddiriedaeth llwyr. Fe wnes i fentro edrych mewn hen hen lyfr sydd ar un o'r silffoedd yma, am esboniad o'r gair "cyfrinach". "Cyfrinach medde hwnnw mewn print bras yw rhywbeth sydd yn cael ei rannu rhwng dau gyfaill, a dau yn unig". Er mwyn cynorthwyo'r darllenydd fe aeth yr esboniwr ymlaen ymhellach a dweud mai "clecs" yw rhywbeth sydd yn cael ei rannu rhwng nifer! Oes gyda chi gyfrinach neu broblem ar hyn o bryd tybed, ac yn dyheu am gael dweud wrth rywun? Ym mhwy y gallwch chi ymddiried ynddo fe fel bod yr hyn sydd yn pwyso arnoch chi ddim yn cael ei basio ymlaen i neb arall o gwbwl ? Yn eich cyfaill neu ffrind gorau, os yw yn ddiogel i wneud hynny? Neu pwy arall?

Fe'n dysgwyd ers dyddiau'r Ysgol Sul am "Gyfaill y Plant". Fe glywsom yr hanes am y stori fwyaf a glywodd y byd erioed. Nid cyfrinach mohoni ond rhywbeth sydd yn werth gwrando arni a'i phasio ymlaen cynifer o weithiau ag y gallwn ni. Dyna sydd wedi digwydd dros y canrifoedd, a sicrhau bod plant ein Hysgolion Sul a phlant eu hysgolion hefyd, gobeithio yn cael clywed am hanes Iesu Grist.

Wele cawsom y Meseia,
Cyfaill gwerthfawroca'r 'rioed.

Dyma gyfaill haedda'i garu,
a'i glodfori'n fwy nag un.

Braint i bob Cristion heddiw yw cael ymffrostio eu bod nhw yn un o ddilynwyr Iesu Grist. Llawer mwy o fraint yw cael cyhoeddi i'r byd eich bod yn cyfrif eich hunan yn ffrind agos i Iesu Grist!

Pethau prin yn y dyddiau yma yw ffrind da sydd gyda chi drwy'r amser, ond mae'r Iesu wedi addo bod yn gyfaill agos i ni trwy gydol ein hoes, pa beth bynnag a ddaw i'n rhan.

parhad ar dudalen 8

# Clonc a Phosau John Arfon

Bu mis Awst yn arbennig o garedig inni gyda'r tywydd, ychydig bach iawn o law gawsom er fod ffermwyr a garddwyr yn crefu amdano, a phan ddechreuith y glaw i ddod, mae arnnaf ofn na fydd stop arno. Cafwyd Sioe Amaethyddol Frenhinol ardderchog gyda nifer fawr iawn yn mynychu'r safle yn Llanelwedd ac hefyd bu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn llwyddiant mawr. Roedd llawer ohonom yn lwcus iawn i gael gweld a mwynhau y cyfan o'r digwyddiadau hyn ar y teledu, diolch i S4C. Llongyfarchiadau mawr i amryw rai o'r ardal a fu'n llwyddiannus yno, rydym i gyd mor bles.

Hoffwn hefyd gymeryd y cyfle i longyfarch Eilyr Thomas, Clunderwn ar gael ei hurddo gyda medal Syr T H Parry Williams am ei holl waith ym myd cerddoriaeth yn ei hardal, ynghyd a'r llwyddiant ysgubol mae wedi ei gael gyda'i disgyblion dros yr holl flynyddoedd. Da iawn a dalier ati Eilyr.

Cynhaliwyd dydd agored Bysiau Cwm Taf ar Sadwrn olaf mis Gorffennaf ac roedd yn lwyddiant ysgubol. Ymwelodd nifer fawr yno rhwng hanner dydd a phedwar o'r gloch a chynigiwyd lluniaeth i bawb. Bu fy ffrind Les a minnau yno a chwrddasom a nifer dda o bobl a oedd wedi cyd-deithio gyda ni ar amryw dripiau campus dros y blynyddoedd diwethaf. Yn y nos cynhaliwyd cyngerdd mewn pabell fawr gyda Chor Meibion Hendygwyn, Clive ei hun a Tudur Wyn yn perfformio. Roedd y babell dan ei sang a phawb wedi mwynhau y noson yn fawr iawn. Roedd yr holl arian a gasglwyd (ac roedd hyn yn swm uchel iawn, diolch i haelioni Clive a phawb oedd yn bresennol) yn cael ei rannu rhwng yr achosion da Prostad Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru. Yn dilyn y raffl a'r ocsiwn llwyddiannus iawn bu Dafydd Pantrod yn diddori'r gynnulleidfa. Noson i'w chofio ac edrychwn ymlaen am un y flwyddyn nesaf.

Hoffwn innau ddymuno ymddeoliad hapus iawn i Wyn a Meirwen am yr holl waith a wnaethant yn cysodi Y Cardi Bach dros flynyddoedd lawer. Bu'r ddau o gymorth enbyd i mi a byddwn yn eu poeni yn rheolaidd i geisio cael trefn ar fy nghyfrifadur a'r holl bosau yr oeddwn yn wneud. Diolch o waelod calon ichwi. Gallaf ond eich rhybuddio y byddaf eto yn gofyn am eich cymorth pan fyddaf eu angen. Gobeithiaf yn wir eich bod wedi mwynhau eich mordaith, a gallaf ar ran pawb rwy'n siwr ddymuno iechyd a phob dymuniad da ichwi ar ddathliad eich Priodas Aur. Hoffwn hefyd gymeryd y cyfle i ddiolch i Jason a Gwen Lye-Phillips ar gymeryd drosodd yr awennau o arwain y papur am y blynyddoedd nesaf, pob lwc a dymuniadau da ichwi.

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ardal sydd wedi llwyddo yn arholiadau Lefel A a TGAU ac hefyd i'r rhai enillodd radd. Dymuniadau gorau iddynt i gyd i'r dyfodol.

Unwaith eto daeth tristwch i lawer yn yr ardal drwy golledigaethau. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â phawb yn eu galar.

**Dyma atebion y mis diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | O | X | X | O |
| X | O | O | X | O | X |
| X | O | X | O | X | O |
| O | X | O | X | O | X |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | X | O | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 6 | 8 | 7 | 3 | 4 | 2 | 1 | 9 |
| 1 | 7 | 2 | 9 | 6 | 8 | 4 | 3 | 5 |
| 4 | 9 | 3 | 1 | 5 | 2 | 6 | 7 | 8 |
| 7 | 3 | 9 | 2 | 8 | 5 | 1 | 6 | 4 |
| 6 | 5 | 4 | 3 | 9 | 1 | 8 | 2 | 7 |
| 2 | 8 | 1 | 6 | 4 | 7 | 9 | 5 | 3 |
| 8 | 2 | 7 | 5 | 1 | 9 | 3 | 4 | 6 |
| 3 | 4 | 5 | 8 | 2 | 6 | 7 | 9 | 1 |
| 9 | 1 | 6 | 4 | 7 | 3 | 5 | 8 | 2 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | | | | O | |
| | | | X | | |
| | O | O | | | |
| | | | | | O |
| X | X | | | | |
| | | | | O | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 9 | | 5 | | 4 | | | |
| | | 6 | | 3 | | | | |
| 1 | | 4 | | | | | 7 | 5 |
| | | 7 | 2 | | | | | |
| 4 | | | | | | | | 1 |
| | | | | | 7 | 8 | | |
| 5 | 8 | | | | | 4 | | 2 |
| | | | | 9 | | 1 | | |
| 2 | | | 8 | | 6 | | 9 | 7 |

**Dyma atebion posau y mis diwethaf**

Y gyntaf os cofiwch oedd canfod llefydd y bu'r Eisteddfod yn ymweld a'r lle, gan ddefnyddio y rhestr a roddwyd. Wedi cwblhau'r pôs a darllen y llythrennau oedd heb eu croesi allan dylech fod wedi cael dau ateb arall, un yn y Gogledd a'r llall yn y De. Yr atebion oedd eisiau felly oedd Bangor a Treorci.


Yn yr ail gystadleuaeth rhaid oedd datrys yr anagramau a rhoi'r atebion yn y croesair.

**Dyma'r atebion:**

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rh | I | D | Y | Ll | | Ll | A | Dd | D | y | |
| E | | F | | N | | S | | Ng | | I | | s |
| B | R | A | D | Y | Ch | U | | O | Ch | R | O | G |
| O | | N | | S | | G | | R | | E | | W |
| S | W | C | R | O | | N | E | i | TH | I | W | R |
| T | | | | E | B | O | L | | | D | | s |
| | T | U | E | Dd | U | | W | Ff | T | I | O | |
| O | | F | | | A | D | A | R | | | | P |
| P | I | U | E | N | N | U | | W | N | C | W | L |
| E | | Dd | | A | | D | | Y | | Y | | Y |
| R | A | D | I | O | | E | N | D | E | M | I | G |
| A | | O | | M | | W | | R | | U | | U |
| | E | D | L | I | W | | O | H | O | N | I | |

Yn anffodus ni ddaeth yr un ateb o gwbl i law o bosau'r mis diwethaf. Roedd hyn yn siom fawr i mi gan fod gwobryon ar gael. Gyda'r problemau gweld sydd gennyf ar ffaith fy mod yn gorfod dibynnu ar Wyn Evans i roi cymorth imi pob mis, rwyf wedi penderfynu y byddaf yn rhoi gorau i gyfrannu o'r Nadolig ymlaen. Diolch i bawb am yr holl gefnogaeth a'r geiriau caredig yr wyf wedi ei dderbyn dros yr holl amser. Nid wyf yn hollol siwr pa bryd y dechreuais fy ngholofn, ond rwy'n meddwl fod hyn tua 35 neu fwy o flynyddoedd yn ôl. Rwy'n gobeithio yn fawr y gwnaiff rhywun arall roi posau i mewn o hyn ymlaen.

**Y rhan gyntaf** i'ch diddori mis hwn yw cwblhau pôs yr Olwyn Fawr. Atebwch y cliwiau odditano a rhowch yr atebion yn yr olwyn o'r ymyl hyd at y canol. Mae pob ateb yn 6 llythyren o hyd gyda'r un llythyren ar y diwedd yr un fath iddynt i gyd. Ceisiwch weithio allan pa lythyren yw hon a rhowch hi yn y cylch canol.
Wedi i chwi weithio allan y cliwiau i gyd, dylech gael enw peson trwy ddarllen y llythyren gyntaf atebion o rif 1 i 12.





Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren

1. Gwerthiant cyhoeddus
2. Yr awyr uwch ein pennau
3. Gwlad Ewropeaidd
4. Bu N.K yn A.S ar yr etholaeth hon am flynyddoedd
5. Sannau merched
6. 4.55 litr neu 8 peint
7. Barf
8. Gweithredu neu fihafio
9. Caddug neu haen denau o darth
10. Pictiwr
11. Gwrthod ystyried
12. Siarad dwli neu gyboli

**Yr ail bôs** yw cwblhau y croesair rhifau. Gosodwch y rhifau a ganlyn yn y grid isod.

| | | |
|---|---|---|
| 2 ddigid: | 259 | 51448 |
| ** | 282 | 7 Digid: |
| 19 | 382 | 2786778 |
| 28 | 393 | 2794352 |
| 32 | 928 | 3936528 |
| 47 | 4 Digid: | 3937528 |
| 67 | **** | ******* |
| 68 | 2413 | 9 Digid: |
| 78 | 2545 | ********* |
| 99 | 3063 | 582435387 |
| ** | 5093 | 612948347 |
| 3 Digid: | 5 Digid: | 718629247 |
| 242 | 20104 | |



# Colofn Llên

***gan Marian Thomas***

Tybed pa lyfrau ddarllenoch chi dros yr haf? Gobeithio'n wir i chi gael blas ar arlwy Eisteddfod Wrecsam gydag enillwyr teilwng iawn ym mhob un o'r prif gystadlaethau llenyddol. Mae cerddi'r prifeirdd, Owain Rhys a Tudur Hallam yn rhai emosiynol wrth drafod dementia mam yn y bryddest a'r awdl wedi'i llunio dan gwmwl diagnosis o gancr ac felly'r ddwy seremoni o dan arweiniad rhyfeddol o urddasol a theimladwy yr Archdderwydd.


Oherwydd nad yw llyfrau ffantasi a mytholeg at fy nant i doeddwn i ddim wedi darllen nofelau Peredur Glyn, sef Pumed Gainc y Mabinogi a Cysgod y Mabinogi. Disgrifir y rheini fel rhai 'lle mae realiti wedi'i droi ben i waered' ond roedd rhaid cael gafael ar ei nofel, Anfarwol a enillodd iddo wobr Daniel Owen a'i gydnabod gan y beirniaid yn llenor penigamp. Mae Theophilus Cibber yn actor wedi'i seilio ar gymeriad hanesyddol a fu farw mewn llongddrylliad yn 1758 ond yn y nofel mae'n chwilio am anfarwoldeb ac yn goroesi mewn byd goruwchnaturiol ar ôl cael ei felltithio gan Mathonwy ac Elen. Mae'n dysgu Cymraeg ac yn treulio cyfnodau yn ardal Kensington Llundain – lle roeddwn i'n digwydd bod yn aros ar wyliau tra'n ei ddarllen! Yno mae'n cwrdd â Iolo Morgannwg ac enwogion eraill ac yn teithio Ewrop. Theophilus sy'n adrodd yr hanes a hynny'n llawn cyffro gyda'i sylwebaeth grafog a doniol a'r arddull yn gwbl ryfeddol.

Cyfrol o lên meicro, a enillodd y Fedal Ryddiaith i Bryn Jones, sef Cuddliwio a alwyd gan rywun yn 'pick a mix amheuthun'. Ceir ynddi ddychan, dicter, beirniadaeth gymdeithasol sy'n cynnig gweledigaeth o Gymru heddiw. Mae'n sicr yn gyfrol anghonfensiynol sy'n gwthio'r ffiniau ac yn hollti barn! Byddwn yn trafod hon yn y clwb darllen fis Hydref.

Llyfr yr haf i mi yw nofel ddiweddaraf Caryl Lewis, Bitter Honey - ie yn Saesneg ond yn gwbl Gymreig. Oes mae 'na chwerwder yn hanes profedigaeth Hannah ond mae'r arddull yn eithriadol o felys. Datgelir gwybodaeth ysgytwol iddi yn ewyllys John ei gŵr, y gwenynwr, a adawodd iddi hefyd gyfres o lythyron. Ynddynt mae'n cyfosod ei fywyd â'r gwenyn ac wrth drafod natur eu gwaith cyfeiria at waith ei fywyd yntau i geisio cadw'r iaith Gymraeg, i 'gofnodi ei harddwch cyn iddi lithro o'n gafael.' Digwydd y cyfan yn nhyddyn Berllan-Deg yn dilyn yr angladd a thri chymeriad arall sydd ynddi. Mae'r ysgrifennu yn rhyfeddol o deimladwy - dyma lyfr a brynaf yn rhodd.

Perl arall a fyddai'n anrheg perffaith yw ail gyfrol o farddoniaeth Mererid Hopwood, Mae. Mewn erthygl ganddi yn Golwg adeg ei chyhoeddi mae'n datgan, 'Os collwn ni'r gobaith y gallwn newid y byd, yna, rydyn ni wedi colli'r cyfan,' a hynny er bod nifer o'r cerddi yn ymwneud â rhyfel a heddwch. Onid oedd ei phwyslais ar HEDDWCH yn atseinio'n gadarn drwy gydol yr Eisteddfod? Mae nifer am gyfnod y Clo hefyd. Un o fy hoff gerddi yn y gyfrol yw'r un er cof am ei hewythr, yr annwyl Gerwyn Williams a arweiniodd lond bws ohonom yn aelodau Bethlehem a'r Tabernacl Hendy Gwyn ar bererindod sawl blwyddyn yn ôl erbyn hyn o amgylch bro ei febyd ger Pencaer, Abergwaun.

Casgliad o ysgrifau hunangofiannol am y profiad o fyw gydag alcoholiaeth, sef Camu a enillodd gwobr Llyfr y Flwyddyn haf eleni. Mewn erthygl arall yn yr un rhifyn o Golwg ddiwedd mis Gorffennaf mae'r awdur, Iola Ynyr yn diolch i'w rhieni am ei dysgu 'bod llyfrau yn ffynhonnell i weld y byd efo gobaith.' Dywed Mererid yng ngherdd gyntaf ei chyfrol – 'mae dyddiau blin yn dod i ben, mae amser gwell yn dyfod.' Daliwch ati felly i ddarllen ac i obeithio!









# CORNEL Y DYSGWYR


*gan Albie Abbot*

BOD: Ffurfiau Trydydd Unigol yr Amser Presennol

1. Pwy ______ actio yn y ddrama?
2. ____________________________ ferch fach yn teimlo'n well?
3. ____________________________ dau o blant 'da chi?
4. Rwy'n credu ____________________________ Caerdydd enillodd y gêm.
5. Beth ____________________________ plant yn ei wneud heno?
6. Mair ____________________________ ferch orau yn y dosbarth.
7. Beth yw enw'r dyn ____________________________ byw drws nesaf?
8. ____________________________ hi ddim yn dod i'r parti.
9. Tom ____________________________ brawd Wil, yntê?
10. Dyna'r dyn ____________________________ ei wraig wedi marw.
11. Wyt ti'n nabod rhywun ____________________________ gallu ateb?
12. Mae'r ferch ____________________________ ar y teledu yn byw drws nesaf.
13. ____________________________ rhywun yma sy'n siarad Ffrangeg?
14. Rwy'n sicr ____________________________ Mair yw chwaer Tom.
15. ____________________________ e ddim yn gallu dod.
16. Mae'r ferch ____________________________ e'n ei hoffi yma heno.
17. Beth ____________________________ symud yn yr ardd?
18. ____________________________ neb yn deall ei ysgrifenn.
19. ____________________________ ficer ddim yn siarad Cymraeg.
20. Pwy yw'r ferch ____________________________ ar y dde yn y llun?
21. Mae hi'n gobeithio ____________________________ ti sy'n iawn.
22. ____________________________ rhywun arall yn gallu ateb?
23. Gwelais i dyn ____________________________ ei lun yn y papur heddiw.
24. ____________________________ rhywun arall á diddordeb mewn dod?

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO




DAVIES
Builders Merchants
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Arddangosfa ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar agor

Ffon
Hendygwyn: 01994 240 228
San Cler: 01994 230 239
www.daviesbm.co.uk




HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'n ymddangos bod yr Haf y tu ôl i ni erbyn hyn, ond croesi bysedd y cawn ni ychydig o heulwen cyn ddaw'r Hydref.

Diolch i'r isod am ymaelodi oddi ar y rhifyn diwethaf:-
Mair Collinge, 8 Banc Ostrey, San Clêr
Michelle Atyeo-Thomas, 29 Obama Grove, Rogerstone

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill ym mis Gorffennaf:-
£30 - 175 - Tegwen James, Penybryn, Blaenwaun
£20 - 401 - Eilir Davies, Tŷ Cornel, Meisgyn

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel. Hoffwn hefyd groesawu Gwen a Jason, gan ddymuno'n dda iddynt yn eu swydd.




## TSYTNI AFAL A DATYS

### CYNHWYSION

450g/1 pwys o datys
450g/1 pwys o afalau
55g/2 owns o sbeis piclo cymysg
855ml/1½ peint o finegr
450g/1 pwys o winwns
450g/1 pwys o domatos gwyrdd neu goch
340g/pwys o siwgr brown (demerera)
30g/1 owns o halen

### DULL

Tynnwch y cerrig o'r datys, torrwch nhw yn eu hanner.
Pliciwch a thorrwch yr afalau, torrwch y tomatos a'r winwns.
Rhowch y sbeis piclo mewn bag mwslin.
Mudferwch yr holl gynhwysion nes bod y finegr wedi'i amsugno a bod y cymysgedd yn eithaf trwchus.
Rhowch mewn potiau.



*Llewyrch i'm llwybr - parhad o dudalen 3*

O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu
ffrind ymhob ystorom gref;
ac eto-
Cyfaill yw sy'n dal yn ffyddlon,
.....cydymdeimlo mae â'n llef,
gŵyr yr Iesu am ein gwendid –
awn â'r cwbwl ato ef.

Beth mwy sydd eisiau arnom ni, ond rhywun y gallwn ni droi ato, ac ymddiried yn llwyr ynddo. Ac wedi derbyn y fath fraint, sut gallwn ni dalu'n ôl iddo Ef? Wel, yn syml trwy rannu'r stori, trwy rannu'r gyfrinach gyda chymaint o bobl ag y gallwn ni –

Cofia mae gan gyfaill, gyfaill!

# MERCHED Y WAWR

**Clwb Gwawr Merched Hywel**

Mêl Gwel y Meini

Ymwelodd Clwb Gwawr Merched Hywel â Gwel y Meini, Efailwen ym mis Mehefin, lle bu Anthony Jenner yn siarad â nhw am ei brofiad o gadw gwenyn a chynhyrchu mêl. Dangosodd ei lecyn arsylwi gwenyn, a gwelwyd y gwenyn prysur wrth eu gwaith, a'r diliau mêl ar y ffrâmau. Holwyd llawer o gwestiynau am y broses o gynhyrchu mêl, ac yna mwynhawyd dished a chlonc. Cafwyd noson hwylus. Diolch i bawb a ddaeth.




DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

**Cangen San Clêr**

Fel rhan o'i dathliadau penblwydd arbennig, gwahoddodd Olive o Pethau Olyv aelodau'r gangen i ginio yn ei chartref. Cafwyd prynhawn hyfryd iawn ar ei haelwyd, gwledd i'w fwyta a sgyrsio a chwmniaeth difyr. Roedd pawb wedi mwynhau. Diolch i Olive am ei haelioni.









Llongyfarchiadau enfawr i Lilwen ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth trefnu blodau i aelodau Merched y Wawr yn y Sioe Frenhinol. Enillodd y wobr gyntaf a'r trydydd am ei threfniannau ar "Lwybr I'r Gofod."

Dymunwn yn dda am wellhad buan i Rhian Williams sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Singleton. Hefyd, cofion am Heulwen sydd wedi treulio rhai wythnosau yn Nhŷ Aberdafen yn Llanelli.

**Clwb Darllen**

Cyfarfu'r Clwb Darllen ar Fedi'r 1af a'r nofel gafodd ei thrafod oedd "Dau" gan Bethan Nantcyll, cyfrol a ddaeth yn agos i'r brig yng ngystadleuaeth y Fedal Ryddiaeth yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Cafwyd trafodaeth ddifyr a phawb wedi mwynhau'r nofel am efeilliaid oedrannus mewn ardal wledig. Bydd y Clwb darllen yn cyfarfod nesaf ar Hydref 20fed ym Methlehem Newydd am 7 o'r gloch pan fyddwn yn trafod y gyfrol a enillodd y Fedal Ryddiaeth eleni sef "Cuddliwio" gan Bryn Jones. Croeso i aelodau newydd ymuno.

Preseli Services Cyf
Llanddewi Efelffre, Arberth. SA67 7PD
Oil4Wales
Olew dros Gymru
CERDYN TANWYDD
preselistorage Ltd

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# BANCYFELIN

**Cydymdeimlo**

Gyda thristwch y derbyniwyd y newyddion fod Mrs Merle Jones, Lôn Cowin, wedi colli ei brwydr ddewr yn erbyn salwch ar Awst 9fed. Bu Merle yn byw ym Mancyfelin ers blynyddoedd er mai un o Gwmfelin Mynach oedd yn wreiddiol. Gweithiodd yn ddiwyd hefyd yn Ysgol Bancyfelin ac Ysbyty Werndale yn y pentref. Yn ogystal â hyn Merle oedd gohebydd y Cardi Bach yn y pentref. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Ramoth, Cwmfelin Mynach, lle daeth tyrfa fawr ynghyd. Cydymdeimlwn â Terry, Cennydd, Catrin a'r teulu oll yn eu galar.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Aled Jones, a enillodd wobr Ffermwr Llaeth Ifanc y Flwyddyn yn noson wobrwyo "British Dairying Cream Awards" ar ddechrau Medi am ei waith, ei effeithlonrwydd a'i barodrwydd i barhau i ddysgu ar Fferm y Wern, Bancyfelin. Da iawn ti!



**Henoed Bancyfelin**

Ym mis Gorffennaf, aeth nifer o aelodau Henoed Bancyfelin ar ymweliad i Erddi Aberglasney. Roedd y tywydd yn braf a roedd digon o bethau diddorol i'w gweld. Cafwyd hanes y Plasdy gan ddwy wraig oedd wedi gwisgo mewn cymeriad a oedd yn ychwanegu at yr awyrgylch. Manteisiwyd ar y cyfle i gael bwyd blasus yn y caffi cyn mynd adref. Diolch i Mai Thomas a Bruce Wallace am wneud y trefniadau ac i Carwen Howells am ddelio gyda'r trefniadau ariannol.



**Sied Dynion Sanclêr**

Mae pentref Bancyfelin yn ddyledus iawn i Sied Dynion Sanclêr am eu gwaith yn y gymuned. Aelodau o'r Sied a fu'n gyfrifol am adnewyddu un o feinciau'r pentref ar ran y Cyngor Tref. Mae'n edrych fel newydd nawr a bydd yn ddefnyddiol iawn er mwyn cael gorffwys ar bwys yr Anglo American Bookclub. Diolch iddynt am eu parodrwydd i helpu yn y gymuned gan ddefnyddio'u sgiliau lluosog.



**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

**Capel Cana a Bancyfelin**

Pleser gan Gapel Bancyfelin oedd cyflwyno copi yr un o'r Beibl i ddisgyblion bl. 6 Ysgol Bancyfelin er côf am y ddiweddar Miss Sallie Walters. Dymuniadau gorau iddynt yn yr Ysgol Uwchradd.





Daeth tymor llwyddiannus yr Ysgol Sul yng Nghapel Cana i ben gyda phicnic a chwaraeon ar dir y capel. Diolch i'r plant am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn, i'r athrawon Ysgol Sul am eu gwaith a'r rhieni am bob cefnogaeth.

| | |
|---|---|
| Cyfraniadau Medi - Diolchiadau | |
| Meurig a Pat Davies, Hendygwyn | £20 |
| Edryd Eynon, Efailwen | £10 |

**Gibeon, Bancyfelin**

Mynychodd rhai y Sul Sbesial a gynhaliwyd yn Neuadd Bronwydd ar Orffennaf 13eg. Braf oedd cael bod yno a hynod ddiddorol oedd clywed am brofiadau Aled Huw yn ei waith fel gohebydd gyda'r BBC pan gafodd gyfle i fynychu digwyddiadau ar draws y byd, rhai yn bleserus ond nifer yn ddirdynnol. Braf hefyd oedd y cyfle i gymdeithasu gydag aelodau o eglwysi'r Cyfundeb dros baned cyn troi am adre.
Ar Orffennaf 20fed cafwyd cyfle i deithio i Sir Benfro gydag aelodau Bethlehem Newydd a Gofalaeth Tabernacl Hendygwyn. Mwynhawyd cinio blasus yng Ngwesty'r Harp yn Nhreletert cyn mynychu oedfa yng Nghapel Penybont, Casblaidd. Roedd yr oedfa yng ngofal eu cyn-weinidog Y Parch. Geoffrey Eynon, ac aelodau'r Ofalaeth. Cawson hanes achos yr Annibynwyr yn yr ardal a diddorol oedd dysgu am yr hanes. Cawsant hwythau glywed am sefydlu a gweithgareddau Tŷ Croeso gan Annalyn. Mwynhawyd paned a lluniaeth ysgafn yn y festri yn dilyn yr oedfa. Diwrnod dymunol iawn.
Cynhaliwyd oedfa yng Ngibeon ar Orffennaf 27ain. Llywyddwyd yr oedfa gan Annalyn a chymerwyd rhan gan yr aelodau. Oedfa Cymorth Cristnogol eleni oedd thema'r oedfa a chafwyd oedfa fendithiol iawn. Gweinyddwyd y Cymun gan Annalyn. Diolch i Annalyn am drefnu'r oedfa ac i Ann am gyfeilio. Mwynhawyd paned a chymdeithasu wedi'r oedfa.



Trip Ysgolion Sul Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin i weld Sioe Joseff yng Nghanolfan y Mileniwm.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# LOGIN

**Calfaria**

**Oedfaon**

Diolch o galon i Tudur Dylan Jones, Hefin Wyn a Donna George am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Hydref 5ed - Cwrdd Diolchgarwch ac Oedfa Gymun Parch. Ken Thomas am 10.30
12fed - Rihyrsal Fawr y Gymanfa Ganu, Pisga Llandysilio am 10.30
19eg - Gymanfa Ganu, Pisga Llandysilio am 10.30

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad buan i Betty Evans a Les Owen, y ddau ohonynt yn anhwylus ar hyn o bryd.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Ceirios ac Anthony Jenner ar enedigaeth wyr bach arall, ganwyd bachgen bach o'r enw Gruffydd Dyfed i Gwilym a Ffion ar Gorffennaf 17eg - pob dymuniad da i chi fel teulu.
Llongyfarchiadau hefyd i Eifion a Meinir Griffiths ar enedigaeth wyres fach arall, ganwyd merch fach o’r enw Alaw Grug i Trystan a Gwen ar Medi 13eg - pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Bryan Evans ar farwolaeth ei nith sef Merle Jones, Bancyfelin yn ddiweddar.
Cydymdeimlwn hefyd gyda Hana a Dylan,
a theulu Maesyffynnon, Coedllys a Cilowen wedi i Hana golli babi yn ddiweddar. Sdim geiriau i gael ar adeg fel hyn ond rydym am i chi wybod ein bod ni gyd yn meddwl amdanoch yn ystod y cyfnod anodd a tywyll hyn. Hyderwn y cewch rhywfaint o gysur yn hynny o beth.

**Y Fynwent**

Mae'r fynwent yn edrych yn daclus ac yn gymen unwaith eto, diolch o galon i Daniel Phillips am ei waith.

Dymuna Margaret Williams, Cilowen ddiolch i bawb am y cyfarchion, anrhegion a’r cardiau wrth ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Bydd y cyfraniadau ariannol o £300 yn mynd tuag at gronfa Canolfan Gofal y Fron Singleton.



**Dathlu Dyfodiad Rheilffordd Y Cardi Bach i Grymych yn 150**

Can mlynedd a hanner yn ol ar y 15fed o Orffennaf 1875 teithiodd tren ar Rheilffordd Cwm Taf am y tro cyntaf o Hendygwyn ar Daf i Grymych yn cario teithwyr. Dros y flwyddyn hon mae Cymdeithas Rheilffordd y Cardi Bach wedi bod yn dathlu mewn amryw o ffyrdd. Felly ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12fed ac ar Sul, 13eg agorwyd Canolfan Treftadaeth Rheilffordd y Cardi Bach ar orsaf Login i’r cyhoedd er mwyn nodi’r achlysur a dathlu’r agoriad. Agorwyd y digwyddiad gan wr sydd wedi cefnogi’r gymdeithas o’r cychwyn cyntaf ac sydd yn aelod ohoni sef Roy Llewellyn.
Diolchodd am waith y gymdeithas yn hyrwyddo hanes y rheilffordd a chynnal digwyddiadau er mwyn dwyn y tren i sylw’r ardal o’r newydd. Diolch i Roy am ei eiriau caredig. Diolch hefyd i Emyr Phillips am rhoi braslun o hanes y Cardi Bach a dangos lluniau. Dros y ddau ddiwrnod ymwelodd llawer o bobl o wahanol fannau a Login i fanteisio ar y cyfle i weld y casgliad cynhwysfawr o luniau, arteffactau a ffilmiau sydd bellach wedi eu casglu ers ffurfio’r gymdeithas yn 2013. Bu’r band iwcaleili lleol yn diddanu ar y dydd Sadwrn ynghyd ag arddangosfa nyddu gwlan a nifer o stondinau amrywiol.










Diolch yn fawr i holl aelodau'r gymdeithas am wneud y gwaith o baratoi yn rhwydd iawn, i'r Cynghorydd Dorian Phillips am fenthyg y babell fawr a diolch arbennig i Peter a Dawn Towns am agor eu cartref unwaith eto i gynnal y digwyddiad. Diolch yn fawr i bawb am benwythnos i'w chofio. Bydd y digwyddiad nesaf i ddathlu "Blwyddyn Cardi Bach 150" yn digwydd yn Theatr Mwldan Aberteifi Hydref nesa.







**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**

Ar Sadwrn, 19eg Gorffennaf cynhaliwyd y Ffair Hâf flynyddol. Penderfynodd y pwyllgor y byddai'r elw yn mynd at gronfa leol Eisteddfod Y Garreg Las.

Agorwyd y ffair gan Roy Llewellyn a rhoddodd fraslun o holl gysylltiadau Rhoswen ac yntau a'r adeilad, drwy'r ysgol, Cylch Meithrin a'r Ganolfan. Mawr fu y prynu ar y stondinau - poteli, teisennau a mygiau. Rhaid oedd cael twba lwcus i'r plant iau ac yn ôl yr arfer cynhaliwyd raffl. Diolch i Sarah a Lee Roberts am drefnu'r mabolgampau i'r plant. Gwerthwyd dros dri chant o beli i'r ras peli a mawr fu yr hwyl wrth ei chynnal. Yn ystod y dydd gwerthwyd bwyd a daeth pawb a pwdin i'w rannu. Codwyd swm sylweddol i gronfa'r Eisteddfod. Diolch i bob un a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y dydd. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol.

Mae'r nosweithiau cwis wedi dod yn boblogaidd iawn a cynhaliwyd un ar nos Sadwrn, 9fed Awst dan ofal medrus Lynn a Ray Burnell. Mae'r nosweithiau hyn yn llawn sbort a sbri. Mae Lynn yn ferch ddyfeisgar iawn ac yn creu gemau gwahanol bob tro. Cofiwch gefnogi'r un nesaf. Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth, 23ain Medi am 7 o'r gloch i drefnu gweithgareddau'r gaeaf.

**Cylch Meithrin Ffynnonwen**

Mae plant a staff Cylch Ffynnonwen wedi bod yn gweitho galed i gael safon aur am ddarparu byrbryd iachus yn amser Cylch Meithrin!



Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
***Salon Harddwch a Chyflenwol***
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# CWMFELIN MYNACH

**Penblwydd**
Llongyfarchiadau i Gwenda Williams, Woodlands a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Fedi 5ed.

**Ramoth**
Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Medi 7fed dan ofal Tudur Dylan a diolch yn fawr am ei wasanaeth.

Gyda thristwch mawr daeth y newyddion am farwolaeth Merle Jones, Lôn Cowin, Bancyfelin ar y 9fed o Awst ar ôl cyfnod o salwch a frwydrodd yn ddewr. Bu Merle yn aelod ffyddlon yn Ramoth ar hyd ei hoes, bob amser yn cefnogi a chynorthwyo pob gweithgaredd o fewn yr eglwys a byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Sadwrn, Awst 30ain yn Ramoth dan ofal Y Parch Huw George, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion Eirian Wyn Lewis a Beti-Wyn James. Daeth tyrfa luosog i dalu'r gymwynas olaf i Merle.
Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod Terry, ei phlant, Cennydd a Rhian, Catrin ac Andrew, yr wyrion Jac a Cai a'r wyresau Gwenno a Sara a'r teulu oll yn ei colled.

Trefn oedfaon mis Hydref
5ed: Oedfa Gymun dan ofal y Parch. Catrin Thomas - 10.30
12fed: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30
Rihyrsal fawr Y Gymanfa Ganu yn Pisgah, Llandysilio - 10.30
19fed: Y Gymanfa Ganu yn Pisgah, Llandysilio - 10.30

**Penblwydd**
Dymuniadau gorau i Llinos Thomas, Carreglwyd a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Hydref 13ain.

**Diolch – oddi wrth Wyn a Meirwen**
Bu mis Awst yn fis chwerw-felys i ni. Bu farw ein chwaer annwyl Merle ar Awst 9fed ac wythnos yn ddiweddarach roeddem yn dathlu ein Priodas Aur. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb am bob gair o gydymdeimlad ac am y dymuniadau gorau. Gwerthfawrogwn y cyfan.

# HENDYGWYN AR DAF

**Penblwydd Priodas Saffir**
Llongyfarchiadau i Dr. Malcolm a Mrs Pearl Holding ar ddathlu eu penblwydd priodas Saffir sef 65 mlynedd o fywyd priodasol. Priodwyd y ddau ar Awst 19eg 1960 yn Eglwys Llandysilio.





Llongyfarchiadau i Nia Griffiths ar dderbyn Gradd BA gyda Anrhydedd gyda Statws Athro Cymwysedig. Mae Nia yn ferch Colin a Cariline Griffiths, Maesdderewn, Llampumsaint, wyres Meurig a Pat Davies, Llygad-yr-Haul, Hendygwyn a Vincent a Beryl Griffiths, Derwengroes, Llampumsaint. Da iawn Nia.











Llongyfarchiadau i Con ac Ann Harries, Hendygwyn ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar.




Dyma lun o deulu'r diweddar Eirlys Davies, Rhodfa Dewi Sant, Hen Dŷ Gwyn, yn cyflwyno siec o £1000 i Dr. Donna Maguire o Feddygfa Taf. Yn hytrach na derbyn blodau, dymuniad y teulu oedd gwneud casgliad tuag at Feddygfa Taf. Yn y llun gwelir David Davies a Jean Brown (plant Eirlys), gyda Dr. Maguire o'r feddygfa.



**Clwb Mat Byr Hendygwyn**

Dyma aelodau Clwb Mat Byr Hendygwyn yn derbyn eu tlysau am y tymor diwethaf. Tynnwyd y llun gan Neil Jenkins.
Mae'r clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth yn Neuadd y Dref Hendygwyn am 7:30. Croeso cynnes i aelodau newydd.

**Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yng ngwesty'r Tâf, Hendygwyn ar nos Iau, Medi'r 4ydd. Dyma'r tro cyntaf i'r gangen gwrdd yma ar ôl cwrdd am flynyddoedd maith yn lolfa'r Clwb Rygbi, a oedd ddim yn addas mwyach. Mae tarian y gangen wedi ei gosod ar fur y lleoliad newydd.

Croesawyd yr aelodau a ddaeth ynghyd gan Claude James ac fe wnaeth longyfarch Dewi a Pam ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ac hefyd Wyn a Meirwen ar ddathlu eu Priodas Aur. Cydymdeimlwyd â Claude ar farwolaeth ei briod Lynnette ar ddechrau'r haf. Braf oedd gweld Ithel a Trefor ar ôl iddynt dreulio peth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol a dyma'r swyddogion am y flwyddyn:
Cadeirydd - Claude James; Is-gadeirydd - Ithel Parri-Roberts; Ysgrifennydd - Verian Williams;
Trysorydd - Glyn Evans; Trefnwr adloniant - Mel Jenkins.

Yn dilyn, estynnwyd croeso i'n siaradwr gwâdd sef Robert Jones o Glunderwen. O ardal Login yn wreiddiol a chafodd ei addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Hendygwyn. Hyfforddwyd fel athro gwaith coed a bu am flynyddoedd yn dysgu yn Ysgol Preseli. Cafodd yr anrhydedd o ddylunio a chreu cadair Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi. Mae wedi ymddeol ond mae galw mawr am ei waith yn cynhyrchu gwrthrychau fel llwyau caru ayyb.

Pwnc y noson oedd ei waith yn cadw gwenyn. Mae ganddo ddiddordeb mawr mewn natur a hynny ers yn blentyn. Yn 12 oed prynodd 5 cwch, yn 1981 roedd ganddo 44 ac erbyn hyn mae ganddo 200! Mae yn arbennigwr o fri gyda pharch mawr iddo wrth bawb yn y diwydiant a mae yn beirniadu mewn sioeau dros y wlad. Mae'n cynhyrchu tua 5 tunnell o fêl bob blwyddyn ac yn gwerthu'r cyfan.

Dywedodd fod ffermio yn dibynnu ar wenyn i beillio planhigion ac mae'r wenynen frodorol yn ffynnu yn yr hinsawdd hon yn well nag unrhyw un arall. Gall Robert gerdded o amgylch gwenynfa o 50 neu fwy o gychod gwenyn a dewis y rhai puraf drwy'r ffordd y maent yn ymddwyn.
Noson diddorol dros ben a diolchwyd i Robert gan Glyn Evans. Bydd y cafarfod nesaf ar nos Iau, Hydref 2il ac mae croeso i aelodau newydd.

**Cylch Meithrin Hywel Dda**
Rydym wedi ffarwelio ag un o’n plant sydd wedi ein gadael ni i ddechrau ei thaith yn yr ysgol fawr ym mis Medi. Pob lwc i ti Tilly - mwynha.




Enillwyr Clwb 200 Cylch Hywel Dda (Awst):
1af - Rhif 6 Colin Harries
2il - Rhif 40 Florence
3ydd - Rhif 19 - Cerian Davies



Enillodd y plant yr ail wobr am eu crefft yn Sioe Sanclêr eleni. Y thema oedd - lluniau Cymreig. Da iawn blant!

**Tabernacl Hendygwyn**
Y trydydd Sul ym mis Gorffennaf eleni eto fe wnaethom ymuno gyda Bethlehem Newydd a Gibeon ar ein pererindod i Sir Benfro. Cafwyd cinio hyfryd yn yr Harp, Treletert ac yna yn y prynhawn oedfa yng Nghapel Penybont, Casblaidd. Roedd y croeso yn gynnes iawn yno a chafwyd gwasanaeth ddiddorol a bendithiol iawn o dan ofal Parchg. Geoffrey Eynon a Mrs Annalyn Davies. Yna cyfle i gymdeithasu eto yn y festri dros baned o de a chacen. Diolch i Mrs Marian Thomas a Mr Verian Williams am drefnu.

**Wythnos Hendygwyn**
Fel rhan o ddigwyddiadau Wythnos Hendygwyn eleni, cynhaliwyd noson yng nghwmni aelodau o’r grŵp Perlau Tâf yng Nghapel y Tabernacl.
Sefydlwyd Perlau Tâf ar ddiwedd y chwedegau yn ysgol Ramadeg Hendygwyn gan un o’r athrawon John Arfon Jones. Cafwyd noson hyfryd a diddorol iawn yn eu cwmni wrth glywed aelodau o’r grŵp yn adrodd eu hanes dros y blynyddoedd ac yn canu nifer o’r caneuon roeddent yn arfer canu.
Cafwyd noson hwylus iawn.



**Eisteddfod y Garreg Las 2026 - Bore Coffi**
Cynhelir bore Coffi yn Festri Tabernacl ar fore Sadwrn Hydref 18eg rhwng 10 a 12 o’r gloch. Mynediad £5. Croeso cynnes i bawb.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

PREN DA
Gwaith coed o bob math
Dafydd Makepeace
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn: 07967 220289

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

# LLANGYNIN

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn fawr â Mark,Stephen a Jennifer, Claire, Rhys, Iestyn a Tomos a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth Eluned Davies, Troedyhiw. Bu farw Eluned ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12fed, yn 76 oed.
Rydym yn cydymdeimlo gyda Linda, Dorian, Sharon , Justin ac Ella a'r holl deulu ar farwolaeth Gareth Thomas, Pantglas. Bu farw Gareth yn dawel yn ei gartref ar 1af Awst, yn 83 mlwydd oed.

**Llongyfarchiadau**



Mae Nigel Davies, Llain Deg yn chwarae i glwb bowlio Saundersfoot yn Adran 1af cynghrair Sir Benfro. Llongyfarchiadau iddo ar ei lwyddiant yn ennill cystadleuaeth sengl hŷn a'r rincs hŷn (tîm o 4) yng nghystadlaethau'r Sir.

Dyma'r drydedd waith i Nigel ennill cystadleuaeth sengl y sir a bydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Benfro yn rowndiau terfynol Cymru yn Llandrindod yn y ddwy gystadleuaeth uchod. Pob lwc i ti Nigel!

**Gradd Meistr gyda Rhagoriaeth**



Llongyfarchiadau i Siriol Robinson o Gaeredin, gynt o Garnwen, Llangynin, ar dderbyn gradd Meistr gyda rhagoriaeth mewn Bydwreigiaeth, o Brifysgol Napier, Caeredin.
Mae wedi dechrau'i swydd newydd fel bydwraig yn ardal Kirkcaldy yn Fife.

**Priodas Ruddem**

Llongyfarchiadau i Janet ac Alun Lewis, Llwynbychan a oedd yn dathlu eu Priodas Ruddem ar Orffennaf 27ain.Llongyfarchiadau mawr i'r ddau wrth iddynt ddathlu deugain mlynedd o fywyd priodasol.

**Gair o Ddiolch**

Dymuna Mary, Nigel a'r teulu ddiolch yn ddidwyll i bawb a gyfrannodd roddion er cof am y diweddar Granville Davies, Angorfa. Trosglwyddwyd y swm o £795 i'r elusen Gristnogol "Open Doors", sef mudiad a oedd yn agos iawn at galon Granville. Mae "Open Doors" yn elusen sy'n cefnogi Cristnogion ar draws y byd sy'n wynebu erledigaeth am eu ffydd trwy ddarparu cymorth ymarferol ac ysbrydol.
www.opendoorsuk.org

Crymych Arms
Croeso i'r Crymych Arms
Bwyd rhagorol a chroeso cynnes
01239 831 435
crymych.arms@gmail.com

ORWE
TRADING AS
DORIAN PHILLIPS
Owain: 07879 495653
Owain @dorianphillipsbuilders.co.uk

ARWAIN
CYNLLUNIO A THREFNU ACHLYSURON ARBENNIG
Penwythnos Stag / Parti plu
Teithiau Clwb Chwaraeon / Ysgol
Penwythnos llawn gweithgareddau
Nosweithiau codi arian....a mwy
07891 922210
rhodri@eicharwain.co.uk
www.eicharwain.co.uk

**Gareth yn cyflwyno cyfres newydd**

Erbyn hyn mae  Gareth Elis o Gaerdydd, gynt o Llain Deg, Llangynin, yn wyneb cyfarwydd yng Nghymru fel actor, canwr a chyflwynydd teledu.Brynhawn Gwener Medi'r 5ed gwelwyd Gareth yn cyflwyno cyfres newydd sbon sydd i'w gweld am 5.25 o'r gloch y prynhawn ar Stwnsh S4C.



Mae Taclo'r Tywydd yn gêm stiwdio ar gyfer plant 7 i 10 oed. Gareth Elis sydd yn arwain tîm o bedwar mewn cyfres o heriau sy'n ymwneud â'r tywydd. Yno i'w hannog mae eu cyd-ddisgyblion, ond yno i'w rhwystro mae'r ddau ddihiryn Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw. Llongyfarchiadau mawr i ti Gareth.



**Priodas Dda**

Llongyfarchiadau i Elin Jones, merch Aled a Hefina Jones, Ger-y-Bryn a Sion Skinner ar eu priodas ddydd Gwener, Awst 15fed, yng Nghapel Bethlehem Newydd, Pwll-trap. Hir oes a phob hapusrwydd i'r ddau ohonynt.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Nos Fercher yr 8fed o Hydref bydd Cymdeithas Gymraeg Llangynin yn cyfarfod yn Neuadd y Bryn am 7 o'r gloch yr hwyr pan gynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd.  Jiwli Higginson, Pennaeth Ysgol y Frenni, fydd y siaradwraig wadd ar y noson. Croeso cynnes i bawb.

## LLANBOIDY

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Mair Morgan ac Eifion Griffiths a'r teulu wedi iddynt golli eu brawd Dewi Griffiths o San Clêr.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Tudor Lewis am dderbyn medal yn y Sioe Frenhinol eleni am ei wasanaeth hir yn gweithio yn y diwydiant llaeth.  Mae wedi gweithio ers dros 50 mlynydd ac yn dal i gasglu llaeth o ffermydd yn lleol. Yn y llun mae Tudor a'i wraig Eleri yn derbyn medal a tystysgrif oddi wrth John Owen a'i wraig Marion.



**Diolch**

Dymuna Mair a Ronnie, Eifion a Violet ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r galwadau ffon yn dilyn  marwolaeth brawd a brawd yng nghyfraith annwyl iawn sef Dewi Griffiths, San Cler yn ddiweddar.

Dymuna Buddug Phillips Merlais, Llanboidy ddiolch i bawb am yr anrhegion,a chardiau ar ei phenblwydd yn 50 oed ar Gorffennaf 31ain.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

**Sefydliad y Merched Llanboidy**

Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd y Farchnad ar Gorffennaf 10fed o dan lywyddiaeth Denise Harries. Bu gwestau'r noson, Ffion yn dangos i'r aelodau sut i gael lliwiau naturiol allan o blanhigion ac enillydd y gystadleuaeth am y trefniant blodau gorau oedd Denise. Ar Awst 11eg teithiodd yr aelodau i ymweld a'r 'Tea Traders' yng Nghaerfyrddin lle treuliwyd prynhawn diddorol yn cael hanes amrywiol gwahanol de a cyfle i flasu.

## Corlan

Ar ddechrau mis Gorffennaf, bu Corlan yn cymryd rhan yng nghyngerdd yn Rhosygilwen, a drefnwyd gan Ysgol Cilgerran i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las. Cafwyd noson wefreiddiol mewn neuadd orlawn, gyda'r disgyblion yn perfformio amrywiaeth o ganeuon cyfoes a thraddodiadol, yn ogystal ag unigolion lleol yn perfformio hefyd. Perfformiodd Corlan casgliad o ganeuon, ac yn goron ar y cyfan oedd gorffen y noson drwy gyd-ganu gyda'r disgyblion. John Cwmbetws oedd yn arwain y noson, a nododd mor braf oedd cael ei dywys nôl i oes euraidd yr alawon yma. Diolch o galon am y gwahoddiad a'r fraint o gael canu gyda'r plant mewn adeilad mor hyfryd.





**Corlan yn canu yn Nhegryn**

Yna ar ganol mis Gorffennaf bu Corlan yn canu ar faes chwarae pêl droed Tegryn. Yno cynhaliwyd 'Picnic / Parti yn y Parc' i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las. Rhannom y llwyfan ag amrywiaeth o dalentau a chawsom brynhawn hyfryd. Diolch yn fawr iawn am y gwahoddiad.

# SAN CLÊR

Cydymdeimlwn â theulu Edmund Phillips, Stryd Fawr a fu farw ar Orfennaf 6ed. Cofiwn am ei wraig, Sylvia, a'r meibion Dorian ac Ian a'r teulu oll yn eu galar.
Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Dewi Griffiths, Cartref Clyd yn 94 mlwydd oed. Roedd Dewi yn adnabyddus i bawb yn San Clêr, yn aelod o sawl mudiad ac yn gymeriad hoffus iawn. Cydymdeimlwn yn fawr â'i deulu ar eu colled.
Cydymdeimlwn â Nia a Kevin Ward a'r teulu, Llys Newydd, ar farwolaeth brawd Nia, sef Wyn Williams o Lanymddyfri.
Cydymdeimlwn â Catrin ac Andrew, Jac a Cai, Holmlea ar farwolaeth mam Catrin, sef Merle Jones o Fancyfelin. Rydym yn meddwl am y teulu yn eu galar.

Llongyfarchiadau i Kevin a Janette Jenkins, Stryd y Bont, ar enedigaeth ŵyr bach, Osian Berti, mab i Steffan a Lowri.
Llongyfarchiadau mawr a phenblwydd hapus arbennig yn 95 oed ar Fedi 16eg, i Eric Adams, Richmore House, Rhiw'r Orsaf.

Danfonwn gyfarchion penblwydd at Beti Thomas yng Nghartref Glyn Nest, Castell Newydd Emlyn. Bydd Beti yn 87 oed ar Fedi 27ain. Mae Beti'n derbyn y Cardi Bach ar CD yn fisol ac mae holl drigolion Glyn Nest yn gwrando ar y CD drwy'r system sain. Diolch i Susan Davies, Iona Morgan a Rhian White am roi o'u hamser i ddarllen y Cardi Bach i'r Llyfrau Llafar bob mis.
Bydd Nest a Dafydd Williams yn dathlu penblwyddi arbennig yr Hydref hwn. Bydd Nest yn 90 oed ar Fedi 23ain a Dafydd yn 90 oed ar Hydref 9fed. Dymunwn benblwydd hapus i'r ddau.

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Siop Siân
01239 831230
Llyfrau Cymraeg, Cardiau Cyfarch, Anrhegion Cymraeg a mwy yn gwasanaethu Sir Benfro
London House, Crymych
SA41 3QE

Bwyd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



Llongyfarchiadau i Dr. Bradley Arms-Williams a Miss Kirstie Hodge o Gasnewydd ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Mab Julie Arms-Williams, Trinity House, Heol yr Orsaf a'r diweddar Teddy Williams yw Bradley. Maent ar hyn o bryd yn byw yn Lerpwl. Dymuniadau gorau wrth y ddau deulu.



Llongyfarchiadau i Caeo Pryce, Bryncaerau Sanclêr ar ennill ei dystysgrif TAR Uwchradd o Brifysgol Met Caerdydd a phob dymuniad da gyda'r swydd newydd fel athro.

# PWLL TRAP

Bu farw Dr Dai Morris, Fferm yr Ostrey ar Orffennaf 13eg yn 87 oed. Cydymdeimlwn â'I wraig Cynthia, ei blant Sally a David a'r teulu oll ar eu colled.
Cydymdeimlwn hefyd â Ivy, Eifion, Arwel a Rhian Edwards, Gors Fach a'r teulu oll ar farwolaeth eu chwaer, Merle Jones o Fancyfelin.
Llongyfarchiadau i Bethan Reynolds, Lon Wen, ar ennill ei gradd B.A. gydag anrhydedd o Brifysgol Aberystwyth.
Penblwydd hapus i Verian Williams, Y Berllan, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 85 oed ar Orffennaf 19eg.
Ar Ebrill 2il ganwyd Freddie i Nerys a Joel Read o Bentlepoir, ŵyr i Christine, Maesyronnen ac Ashley, Glenview a gor-wyr i Joan Evans, Glenview. Dymunwn yn dda hefyd i Natalie, anti i Freddie, sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar.
Dymunwn wellhad buan i Ann Major, y Llew Gwyn sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar.
Dymuna Ivy, Eifion, Arwel a Rhian ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, Merle Jones, Bancyfelin.

**Bethlehem Newydd**
Teithiodd nifer o'r aelodau i Sir Benfro yng nghwmni aelodau'r Ofalaeth a Gofalaeth Tabernacl Hendygwyn ar Orffennaf 20fed. Mwynhawyd cinio dydd Sul blasus yn yr Harp, Treletert cyn mynychu oedfa yng Nghapel Penybont Casblaidd. Adnabyddir hefyd fel Capel y Fford. Croesawyd pawb yno gan y Parch Geoffrey Eynon, y cyn-weinidog a chafwyd hanes yr achos ganddo. Bu Annalyn yn son am weithgareddau Tŷ Croeso. Wedi'r oedfa bu cymdeithasu dros baned. Diolch yn arbennig i Verian am drefnu'r daith, fe wnaeth pawb fwynhau.
Trist oedd clywed am farwolaeth Dewi Griffiths, Cartref Clyd ar Orffennaf 13eg. Roedd Dewi yn ffyddlon i'r oedfaon ym Methlehem Newydd tan yr wythnosau olaf ac yn mwynhau cyhoeddi emyn yn oedfaon yr aelodau. Fe welir ei eisiau yn yr oedfa ac yn Croeso Cynnes. Cynhaliwyd ei angladd ym Methlehem Newydd ar Orffennaf 28ain dan ofal y Parch Huw George.

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

Cydymdeimlwn â'r teulu oll. Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Eluned Davies, Troedyrhiw a fu farw ar Orffennaf 12fed yn 76 oed. Roedd Eluned yn aelod ym Methlehem Newydd ac yn mynychu'r oedfaon yn gyson nes i'w hiechyd ddirywio. Cynhaliwyd ei hangladd ym Methlehem Newydd ar Orffennaf 31ain.

Llongyfarchiadau i Nia (fferm yr Hendre) a Luke Brisco ar eu priodas ym Methlehem Newydd ar Orffennaf 25ain. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin.

Ar Awst 15fed priodwyd Elin Haf Jones o Langynin a Sion Skinner ym Methlehem Newydd. Gweinyddwyd y gwasanaeth gan y Parch. Beti-Wyn James. Mae Elin a Sion wedi ymgartrefu yn ardal Ruthin lle mae Elin yn athrawes.
Llongyfarchiadau i Rhodri a Marian ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fedi 20fed.

Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus yn 60 oed ar Hydref 2il i Hywel Davies, Talacharn.




**Tŷ Croeso**





Unwaith eto gwnaed casgliad arbennig o nwyddau hylendid i Loches y Gwragedd. Diolch i bawb am gyfrannu mor hael ac i Pethau Olyv a Mols Bistro am dderbyn y nwyddau.




Dyma Eric Davies yn cyrraedd Croeso Cynnes mewn steil yn y Cerbyd Cymunedol dan nawdd Age Cymru a Dolen Teifi. Diolch i Ryland James, un o'r gyrrwyr gwirfoddol am ei gludo'n saff. Os hoffech chi ddod i Croeso Cynnes ar fore Dydd Mawrth rhwng 10.30 a 12.00 cysylltwch gydag Annalyn Davies i wneud y trefniadau. Cyfle arbennig i gael clonc gyda ffrindiau a dished o de.



# HENLLANFALLTEG



Llongyfarchiadau i Cadi Williams, Blaenlliwe am dderbyn gradd BSc mewn Radiograffeg Diagnostig a phob lwc iddi yn ei swydd yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd.

Llongyfarchiadau mawr wrth y teulu i gyd.



Llongyfarchiadau i Dr Owain Gibbin BVSc MRCVS a raddiodd ym mis Gorffennaf o Brifysgol Lerpwl fel milfeddyg. Mae Owain yn dechrau ei swydd cynta gyda Milfeddygon Wern, Ruthun.

Llongyfarchiadau mawr a phob lwc oddi wrth teulu Drefach.

# RHYDWILYM

**Oedfaon**
Medi 21ain - 2.00 Natalie Morgan Cyfarfod Diolchgarwch.
Hydref 5ed - 2.00 Oedfa Gymun gan Parchg Ken Thomas.
Hydref 19eg - 10.30 Cymanfa Ganu yn Blaenconin.
Tachwedd 2il - 10.30 Oedfa Gymun gan Tudur Dylan Jones.

Dymunwn yn dda i Nesta Davies ac i Ann Youngman sydd adre wedi treulio peth amser yn yr ysbyty, ac i bawb sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

Bydd Eluned Jones yn mynd yn ôl i Batagonia am ryw chwech mis unwaith y rhagor. Bydd yn gadael dechrau mis Hydref a dymunwn iddi gael amser wrth ei bodd.

# RHYDYCEISIAID

Gwasanaeth Cymun ar Sul Gorffennaf 13eg gan Mr. Sion Page, Trelech.

Cydymdeimlwn a Mair a Ronnie Morgan a'r teulu Picadilly, a Eifion a Violet Griffiths ar farwolaeth brawd, sef Dewi Griffiths, San Cler. Roedd Dewi yn un o blant y capel ac yn ymwelydd ffyddlon. Roedd yr angladd yng nghapel Bethlehem Newydd ar Gorffennaf 28ain.



**Dathlu Priodas Emerallt**
Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Ernest a Janet Jones Yr Hafan, 59 Heol Bronwydd Caerfyrddin ar ddathlu ei Priodas Emerallt yn ddiweddar. Priodwyd y ddau yng Nghapel Rhydyceisiaid ar Awst 4ydd 1970. Cyfarchion wrth Mark, Elaine, Gareth a'r teulu.

THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk



*Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin*
*Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel*

MASNACHWYR ADEILADU
*"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"*
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

**H THOMAS a'i FAB**
**Peiriannydd Amaethyddol**



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

# CLUNDERWEN

## Penblwyddi



Penblwydd Hapus i Todd Howitt a fydd yn 18oed ar 29ain o Medi. Mab Kelly a Steve Howitt, Bro Dderwen.



Penblwydd Hapus i Lili James, Gelli Olau a oedd yn 18 oed ar Awst 17eg.



Penblwydd Hapus arbennig iawn i Albert Thomas a oedd yn 90 oed ar 19eg o Awst.

Hefyd Penblwydd Hapus i Jess Reynolds a oedd yn 30 oed ar Gorffennaf 23

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Catrin (Boulton) a Dafydd Walters er eu Priodas ar 12fed o Orffennaf.





**Dyweddio**

Rydym yn falch i gyhoeddi ar Awst 15ed gwnaeth Bronwen Prick-ett (merch Angie a Rob Prickett) o Glunderwen a Joseph Tuckett ddyweddio. Cwrddodd y par yn Caerfaddon yn 2020, ar ol i'r ddau astu-dio ym Mhrifysgol Sba Caerfaddon. Mae'r par wedi gwneud ei cartref yng Nghwmbran.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Lloyd Hughes (mab Emma a Arwel Hughes) ar dderbyn gradd BSc mewn Rheolaeth Busnes yn Abertawe.




D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen,
San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Clwb Ffermwyr Ifenc**

Llongyfarchiadau i Llinos Ford am ddod yn 3ydd (unigol) a 1af (tim y moch) yn Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Ei chystadleuaeth olaf fel aelod o Glunderwen. Da iawn wir.



**Dathlu 50 mlynedd**

Mae busnes Ladds ironmongers wedi bod yn mynd am 121 o flynyddoedd. Ond mae'r Teulu Davies, sydd yno nawr, wedi bod yn rhedeg y busnes am 50 o flynyddoedd eleni. Maent hefyd wedi cael blwyddyn llwyddiannus yn y sioeau lleol eleni. Wedi ennill stondin orau yn Sioe Penfro, Sioe Sir Benfro, Sioe Martletwy a Clunderwen. Da iawn wir.




**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Mis yma aeth y gwragedd lan i gael bwyd i Penboyr i 'Veganishmum pop up restaurant'. Mae nhw wedi ennill 'Food Awards Wales' yn 2024, ac maent wedi bod yn lwcus i gael ei henwebu eleni eto. Pob lwc iddynt.



**Dyddiadau i gofio**

Noson Country and Western, nos Sadwrn 4ydd o Hydref, 7yh yn Neuadd Clunderwen.
Gwersi dawnsio llinell am 7.30, ac i ddilyn Band The Midnight Fiddle.
Archebwch docynnau o flaen llaw £15/neu wrth y drws am £20 drwy facebook neu 07796 673 468.
Dewch a diod eich hun. Diod croeso pan yn cyrraedd, a bydd bwyd ar werth gan CFFI Clunderwen i godi arian tuag at Ysgol Brynconin a Cae Chwarae Clunderwen.




Noson Bingo yn Neuadd Clunderwen ar 27ain o Fedi am 6.00yh. Elw at Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, 2026

HUW JONES
ADEILADWR
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329



DERI PAGE
CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES



Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

# GELLYWEN

**Ainon**
Blin iawn gorfod cyhoeddi marwolaeth ein aelod hynaf, sef Florrrie Rees, Bryn y Wawr, Llanpumsaint ond gynt o Gaerwennog, Trelech. Hunodd yn dawel ar 13eg o Awst yn 97 mlwydd oed ac fe gladdwyd ei gweddillion gyda'i gwr Alun a oedd wedi ei blaenu ers 1967, ac yntau ond yn 42 blwydd oed, ond yn awr gydai gilydd unwaith eto hyd dragwyddoldeb.

Roedd Florrie yn fam, mam yng nghyfraeth, mamgu, a hen famgu ffyddlon a bydd gwacter mawr ar ei hol.

Bu ei hangladd yn Ainon ar Ddydd Mawrth 9fed o Fedi a diolch i bawb a fu yn cynorthwyo i gael popeth i'w le yn ddidrafferth.

Diolch felly i Eifion Jones, Trefnwr Angladdau, Mrs Jean Lewis am gymeryd y gwasaneth, Brian Crowdie wrth yr offeryn a Derrick Harries yn y maes parcio. Hefyd Hywel Evans am agor y bedd ac wrth gwrs Cegin Fach y Wlad am weini paned a danteithion yn y festri wedi'r oedfa lle cafodd pawb gyfle i adnewyddu cysylltiadau gyda'r teulu a sgwrsio am y dyddiau hapus a dreuliwyd ers llawer dydd yn y pentre hyfryd pan oedd bwrlwm a brwdfrydedd yng ngweithgareddau'r achos.

Gyda llaw erbyn darllen hwn fe fydd ein Cwrdd Diolchgarwch wedi bod ar Fedi 23. o dan ofal y Parchedig Andrew Lenny a oedd yn ymuno a ni am y tro cyntaf ers 1988. Fe wnaed y casgliad i fyny i £200 er cymorth i Eisteddfod y Garreg Las.

# CWM MILES

Dymuniadau gorau i Janet Harries, Spring Cottage sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn wellad llwyr a buan iddi.
Medi 14eg - Cymun 2 o'r gloch Dafydd Evans.
Hydref 5ed - Cymun 2 o'r gloch Parchedig Gareth Ioan.
Hydref 19eg - Cwrdd Diolchgarwch 2 o'r gloch Parchedig Euros Jones Evans.

# BLAENWAUN

Dymuniadau gorau i Pat Davies, Pilmawr, sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Gwellad buan Pat.
Hefyd dymunwn yn dda i Gareth Davies Pilmawr, sydd yn cael triniaeth ddyddiol ar yr arennau. Gobeithio bod y driniaeth o fudd.
Cydymdeimlwn ag Irfon, Ann, Llŷr a Ceris Phillips, Sŵyn y Wawr, ar farwolaeth mam Ann sef Lon Gibbin. Mae'r ardal i gyd yn meddwl amdanoch.
Llongyfarchiadau i blant yr ardal ar ganlyniadau yr arholiadau a phob lwc i'r dyfodol.

Penblwydd hapus i Dai Davies, Fferm Elwyn, a fu'n dathlu ei benblwydd yn 70 oed ar y 3ydd o Fedi.

**Moriah**
Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar Sul Medi 7fed.
Bydd oedfa undebol ym Mryn Iwan ar Fedi 28ain am 2 o'r gloch gyda ein gweinidog yn gwasanaethu.
Hydref 5ed am 10-30 bydd Oedfa o Fawl Cylch y Gymynfa Ganu yng Nghapel Cefnypant gyda'r Parchedig Gareth Ioan yn llywyddu. Cesglir at elusen.
Hydref 19eg - Cwrdd Diolchgarwch Elonwy Phillips am 2 o'r gloch.

# MEIDRIM

Croesawodd Glyn James ein gŵr gwadd, sef John Davies, Cwmbetws.
Clywsom ganddo am ddegawdau ei fywyd a'r digwyddiadau a ddaeth ar ei draws yn ystod pob degawd. Roedd yn siarad gyda arddeliad a hiwmor yn ei ffordd unigryw ei hun. Cawsom ail fyw ei fywyd wrth wrando arno yn llefaru mor rhwydd ac yn wir roedd yn brynhawn hwylus dros ben.
Diolchwyd iddo gan Meirion Morris.
Mis nesaf ar Hydref 7ed bydd Noel a Hiefena James yn dangos ffilmiau i ni o'r amser pan oeddem nhw yn "radio glas"
Wrth y te - Eirwen Davies, Emrys Morgan, Hiefena James, Glenda Badhams.
Rhoi raffl. - Meirion Morris, Lynda Newton, Jean Howell, Eirwen Davies.

TŶ BACH TWT
ANRHEGION • GIFTS
• CRYMYCH •
01239 831144/ 07900 692678

SONIA'S
Siop Trin Gwallt
Llandysilio
Oriau Agor
Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
Iau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.
Ffôn: 01437 563816

Jeff Court
Ceir Newydd ac Ail-law
PEIRIANNYDD MODURON
GWAITH CORFF
STATION GARAGE
HEOL YR ORSAF
HENDYGWYN AR DAF
MOT
SYSTEMAU TYMHERU AER
Ffôn: 01994 240304

**Cyngerdd Eglwys Dewi Sant**
Bu Côr Meibion Hendy Gwyn ar Daf a'r fro yn canu mewn cyngerdd yn Eglwys Dewi Sant, Meidrim ar nos Sul, Medi 7fed. Roedd hi'n hyfryd gweld yr eglwys yn llawn a profodd hyn yn weithgaredd codi arian llwyddiannus iawn i'r eglwys.

Cafwyd unawdau gan Harry Davies, Owain Jenkins a Clive Edwards a darparwyd yr arweiniad cerddorol gan gyfarwyddwr cerdd y Côr sef Hefina Jones. Gwnaeth y cyfeilydd Owain Lewis a'r dirprwy gyfeilydd Heather Jenkins gyfraniad pwysig i sicrhau bod y Côr yn cyflwyno perfformiad gwych. Gwnaeth y gynulleidfa ymateb drwy sefyll ar eu traed wrth gymeradwyo'r Côr ar y diwedd. Roedd hyn yn adlewyrchiad clir o werthfawrogiad y gynulleidfa.

Cafodd y gyngerdd ei drefnu gan y ffeirad sef y Parchedig Adam Bruce, gyda chefnogaeth aelodau'r eglwys a bu'r menywod yn darparu lluniaeth ysgafn yn dilyn y gyngerdd. Gwnaeth hyn ychwanegu at naws gynnes a cysurus yr achlysur yn fawr iawn. Gwnaeth y weithgaredd nid yn unig ddangos gallu a talent y Côr, bu'n gyfrwng i godi aroian sylweddol tuag at goffrau'r eglwys yn ogystal.



## EFAILWEN

**Gwellhad**
Pob dymuniad da i Ann Davies, Ynys Fawr sydd wedi bod yn Ysbyty Glangwili am rai misoedd ond sydd bellach yn Ysbyty Doc Penfro. Gan obeithio y bydd adre ar y fferm cyn bo hir.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Hefin a Heulwen Parri Roberts, Brynglandy a Iwan Jenkins, Rhosfach yn dilyn ei lawdriniaeth diweddar.

**Priodas Dda**
Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau i Gethin James a Magi Davies ar eu priodas ar Awst 23ain. Priodwyd y ddau yn Eglwys Llansannan a cynhaliwyd y wledd ar dir fferm Wenallt, Bylchau sef cartref Magi.



**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda teulu'r diweddar Joy Jones, Rhoswyn fu farw ar Gorffennaf 16eg. Cynhaliwyd angladd Joy yn Amlosgfa Parc Gwyn ar Awst 7fed.
Cydymdeimlwn ag Elaine Bowen, Bro Deirian ar golli ei mham yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau gwresog i Caleb Nicholas ar ennill y Rhuban Glas yn Eisteddfod Wrecsam eleni.









**Cyffro'r ymgyrch – creu'r mowld**

Nawr bod Caffi Beca wedi agor ar ei newydd wedd rydym wedi cyrraedd cam cyffrous o ran yr Ymgyrch Codi Cerflun o Twm Carnabwth.

Mae'r union fan wrth fynedfa'r Caffi lle gosodir y cerflun wedi'i glustnodi. Ewch i mewn iW'r adeilad ac fe welwch addurniadau ar y muriau sy'n cyfleu naws y fro – o'r dyfyniad o'r gerdd 'Preseli' o eiddo Waldo Williams i bennill o gân Tecwyn Ifan 'Ysbryd Rebecca', a mwy. Galwch heibio.

Yn wir, mae'r dyluniad o'r cerflun ei hun o waith y cerflunydd, Rubin Eynon, o Gastell nedd, yn barod i gael ei anfon i'r ffowndri yng Nghlunderwen ar gyfer y broses hir o fowldio'r efydd. Mae fersiwn bychan o'r cerflun i'w weld yn y Caffi.

Ma' fe'n plesio. Sylwch ar y manylder. Twll mewn un esgid a phatshys ar y dillad benywaidd yn dynodi tlodi'r cyfnod. A beth sydd yn hongian wrth wregys Tomos Rees? Yr arfau hynny oedd eu hangen i ddinistrio'r tollborth pren yn Efail-wen yn 1839. Bydd ergyd y fwyell yn ei law yn siŵr o daro'r estyll yn rhacs jibiders.

Mae hyn i gyd yn bosib o ganlyniad haelioni unigolion, cynghorau bro, capeli a busnesau yn yr ardal. Codwyd oddeutu £20,000 o'r £60,000 angenrheidiol. Hefyd rhaid diolch i'r arlunydd Meirion Jones am ganiatáu gwerthu printiau o'i ddarlun sy'n cyfleu'r cyffro wrth yr iet. Mae 'Whalu'r Iet yn Shils' ar gael am £250. Holwch yn y Caffi.

Ond mae angen swm sylweddol pellach, yn arbennig i dalu am y gwaith drudfawr o greu'r mowld yn y ffowndri. Rydyn ni mewn trafodaethau gyda nifer o gyrff ac asiantaethau sydd yn noddi prosiectau o'r fath. Ond mae'r elfen gymunedol yn dal yn bwysig a chyfraniad y gymuned yn fodd o ddenu cefnogaeth y cyrff sy'n noddi.

Rydym yn gobeithio y bydd y cerflun yn ei le erbyn cynnal Eisteddfod y Garreg Las y flwyddyn nesaf. Mae'n amlwg y bydd y cerflun yn denu ymwelwyr a'n braint ni fydd cyfleu ychydig o hanes y fro a arweiniodd at Derfysg y Beca a newidiadau cymdeithasol oedd eu dirfawr angen. Cewch ddished o de a phryd blasus yr un pryd gan edrych draw i gyfeiriad copaon ysblennydd y Preselau.

Mawr yw ein dyled i Robert James, perchennog Caffi Beca, am neilltuo darn o dir ar gyfer y cerflun ac am fod mor frwdfrydig dros y cynllun.

Os am gefnogi'r prosiect beth am drosglwyddo cyfraniad i gyfrif banc Lloyds Cymdeithas Cwm Cerwyn 01036767 30-91-65 neu'r dudalen Go Fund Me https://www.gofundme.com/f/codi-cerflun-o-twm-carnabwth-statue-fund neu archebu copi o 'Whalu'r Iet yn Shils' i'w roi ar y wal.

Diolch i chi am gefnogi ymdrechion Cymdeithas Cwm Cerwyn.



Emma Price ( Studio Responce) wrth ei bodd yn derbyn copi o'r print 'Whalu'r Iet yn Shils'

# LLANDYSILIO

**Eisteddfod Wrecsam**
Roedd Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn wythnos i'w chofio i ddau o bobl Llandysilio - Sion Jenkins a Eilyr Thomas.

Llongyfarchiadau mawr i Sion Jenkins ar enill y brif gystadleuaeth i lafarwyr sef :- Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn a hynny am yr ail dro. Tipyn o gamp!





Llongyfarchiadau mawr hefyd i Eilyr Thomas ar dderbyn Medal Syr T. H. Parry Williams.



I gyfarch Eilyr Thomas ar gael ei hanrhydeddu a Medal Goffa Syr T. H. Parry -Williams

Er y baich a'r crebachu
A ddaeth i Fynachlog-ddu,
O gaddug y negyddol
Mae rhai o hyd yma ar ol
Yn cynnal ceinder alaw,
I weld yr haul drwy'r niwl draw.

Hon yw medal cymydog,
Aria llwyn alaw y gog.
Hon medal ein hardal ni
O Lan I Lan eleni
Yw'ch haeddiant, a chyhoeddwn

O raid yr achlysur hwn.

Pan fo'r canu'n ein huno
Yn dorf i wefreiddio'r fro,
Amled, ucheled eich chwaeth
Ddaw o law cystadleuaeth.
Ledia prydferthwch lieder,
Tro'r nodau'n fyw ydyw'r her.

Meithrin yr egin a rydd
Eto i ni dalent newydd.
O'u huodledd daw'r adlais,
Hi yw llyw y pedwar llais.
A thrwy hyn, drwodd ei thro,

Undod – diminuendo.

**Wyn Owens**



Rhai o ddisgyblion Eilyr yn Seremoni cynhaliwyd Eisteddfod yn Wrecsam.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau mawr i Natalie Bowen, Tŷ Capel Pisga, Llandysilio sydd wedi dyweddio gyda Catrin Wyn Roberts o Aberystwyth ar 27ain o Awst. Gwnaeth Natalie ofyn i Catrin i'w phrodi yn Ynys Llanddwyn.



**Graddio**

Llongyfarchiadau mawr i Angharad Dugmore (merch Iris a Andrew Dugmore) sydd wedi derbyn gradd Dosbarth 1af anrhydedd mewn nyrsio iechyd meddwl.



**Penblwyddi**

Penblwydd Hapus iawn I Mark Jones, Ty Gwyn, Llandysilio a oedd yn 60 oed ar 7fed o Awst.
Hefyd i Gavin Twose a oedd yn 40 oed ar 5ed o Awst.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Harold Bibby, gynt o Llandysilio. a fu farw yn dawel ar 11eg o Awst. Gwr cariadus Beryl a tad, Datcu a brawd annwyl. Cydymdeimlwn hefyd gyda Sian James, Maes y Bryn, Llandysilio, ar golli ei mam Christine o Lanybydder. Meddwl amdanoch yn eich colled.

**Er cof am Eira Parry**

Yn y llun mae Michael Parry a Denise Davies yn cyflwyno siec o £400 i SCBU Glangwili er cof am eu mam Eira Parry, ynghyd a 100 a gapanau babi a 10 blanced roedd Eira wedi gweu. Diolch am yr holl gyfraniadau.



**Diolchiadau**

Hoffai Emyr o Faes Carafanau Llandysilio ddiolch i bawb am y gefnogaeth a dderbyniodd ar y diwrnod codi arian er cof am ei wraig Chrstine Bowen. Codwyd £20,000 i Ambiwlans Awyr Cymru, adran achosion brys Glangwili a Brigad Dan Crymych.

Dymunaf i, Gill Beynon, ddiolch i'm teulu, perthnasau, cymdogion a chyfeillion am yr holl garedigrwydd dderbyniais wedi fy anffawd. Gwerthfawrogaf hyn yn fawr.

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

BAR BECA
Rhosfach, Efailwen
Guto Jenkins
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

Jones Login
Teithiau o Safon
Gwasanaeth o'r safon uchaf
Login, Hendy-gwyn ar Daf
Sir Gaerfyrddin. SA34 0UX
Ffôn: 1437 563277
info@joneslogin.co.uk
www.joneslogin.co.uk

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**
Mae Pwyllgor Neuadd Llandysilio yn cwrdd ar yr ail nos Lun o bob mis. Os hoffech ymuno plis, plis dewch. Byddwn yn falch i weld chi. Mae'r pwyllgor nesa ar Hydref 13eg am 7.30yh yn y Neuadd.

**Capel Blaenconin**
Taenwyd tristwch mawr ymysg aelodau Blaenconin a'r ardal gyfan pan glywson newyddion am farwolaeth Dawn, merch Dorothy Williams oedd yn aelod fyddlon gyda ni ym Mlaenconin. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Dorothy, a'r teulu i gyd yn ei galar a'i hiraeth.

Diolch i Donna George am gynnal oedfa Dydd Sul 14eg o fis Medi.

Cofiwn am Dorothy unwaith yn rhagor wrth iddi ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar yr 11fed o fis Medi.

Pisga Llandysilio
Medi 2025
28ain 10.30 y.b. Ymarfer Cyntaf y Gymanfa Ganu

Hydref 2025
5ed 9.00 y.b. Cwrdd Diolchgarwch, Y Parchedig Eirian Wyn Lewis.
5ed Cwrdd Eglwys yn dilyn Cwrdd Diolchgarwch.

12fed 10.30y.b. Ymarfer ola'r Gymanfa Ganu

19eg 10.30 y.b. Gymanfa Ganu, i'w recordio ar gyfer Caniadaeth y Cysegr.

**BORE COFFI**
Codi arian ar gyfer
Neuadd a Maes Chwarae Llandysilio ac Eisteddfod y Garreg Las
NEUADD LLANDYSILIO

Dydd Sadwrn 4 Hydref
10 – 12 or gloch
Mynediad £1.00
Raffl

Dewch i fwynhau sgwrs a phaned.
(Trefnir gan bwyllgor y Neuadd)

# LLANWINIO







Gyda diolch i'r Loteri Genedlaethol, mae grant wedi'i rhoi i Eglwys Sant Gwinio i gynnal atgyweiriadau hanfodol allanol.

---

# Pwyllgorau Apêl Eisteddfod Y Garreg Glas

**Efailwen, Login, Llanglydwen, Hebron a Cwm Meils**
Daeth y gymuned ynghyd ar nos Fawrth 15fed o Orffennaf i fwynhau antur helfa drysor o amgylch ardal y Pwyllgor Apêl. Cafwyd noson lwyddiannus a hwylus iawn gyda 26 o geir yn mentro amdani! Llongyfarchiadau i Glesni a'r criw buddugol ar ennill yr helfa a derbyn £50 gan gwmni Cyfreithwyr JCP a fu'n noddi'r noson.
Diolch o galon i gwmni JCP am eu nawdd caredig ac i deulu Rhosfach, Bar Beca am ein croesawu a darparu bwyd ar ddiwedd y daith. Rydym gam yn nes at gyrraedd ein targed!
Bydd cyfarfod nesa'r Pwyllgor Apêl ar nos Fercher, Awst 20fed am 6.30 yng Nghaffi Beca. Croeso cynnes i bawb.
Rydym yn falch o gyhoeddi bydd ein digwyddiad nesaf yn dathlu talent cerddorol lleol yr ardal ar ffurf cyngerdd ar Fedi 19eg yng Nghaffi Beca. Tocynnau ar gael am £10 i oedolion a £5 i blant - edrychwch mas am y posteri a dewch i gefnogi a mwynhau noson o gerddoriaeth!

**Llandysilio a Clunderwen**
Cynhelir ail gyfarfod y pwyllgor yng Nghapel Pisga nos Lun 8fed Medi 2025.

Gwnaeth y Trysorydd, Faith Wright, gyflwyno mantolen ddiweddaraf yr ardal ac roedd yn braf i weld bod y cyfraniadau wedi cyrraedd £5,036.50. Roedd cefnogaeth dda wedi dod oddi wrth bobl yn rhoi tuag at gwobrau, casgliadau mewn digwyddiadau dros y misoedd diwethaf, a chyfraniadau'r ddau Gyngor Cymuned.

Bydd cyfle i gyfrannu eto:
Bingo yn Neuadd Clunderwen ar nos Sadwrn 27 Medi 2025 yn dechrau am 6 o'r gloch.Te, coffi a sgwash ar gael yn y neuadd ond mae angen i unigolion ddod a bwyd os dyna yw eu dymuniad.

Bore Coffi yn Neuadd Llandysilio ar ddydd Sadwrn 4 Hydref rhwng 1000 a 1200 o'r gloch.

Twmpath ym mis Ionawr yn y flwyddyn newydd.

Cyngerdd ym Mhisga ar 22 Mawrth 2026 gyda Jess Robinson a Chôr Crymych.

Prynu tocynnau raffl ar gyfer car Fiat Punto gwerth £28,000 sydd yn rhodd gan B V Rees Llandudoch fel gwobr.Tocynnau £2 yr un neu £10 y llyfr.

Dyddiadur yn mynd o gwmpas y ddau bentref.
£1 y tudalen.

Rhoi cyfraniadau ac i ychwanegu 25% trwy lenwi ffurflenni Rhodd Gymorth.

Gall busnesau neu unigolion noddi'r
Eisteddfod am isafswm o £50 a chael eu henw yn rhaglen yr Eisteddfod.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn rhai o'r digwyddiadau uchod a diolch am eich cefnogaeth.

**Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun a Cwmfelin Mynach.**
Cynhaliwyd 5ed cyfarfod y pwyllgor nos Fawrth 2il Medi 2025 yn Neuadd Llanwinio.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod 1af Gorffennaf. Cyfeiriwyd at lwyddiant y noson Gemau a Gwin. Gwnaed elw o £275.

Rasys Ceffylau
Gwnaed trefniadau ar gyfer y noson Rasys Ceffylau. Dosbarthwyd y tocynnau fesul 5 i bob aelod o'r pwyllgor gyda rhif raffl tu cefn pob tocyn. Cynigiodd Eirwen gyfrannu hamper fel prif wobr. Diolchwyd i Dannie, Blaenllain am gynllunio'r posteri.

Raffl Calendr
Meirwen fydd a gofal y raffl calendr am y mis nesaf.

Plygain
Cadarnhaodd Phil mae ar brynhawn Sul, Ionawr 11eg 2026 am 4 o'r gloch byddai'r oedfa Blygain a hynny yn Eglwys Llanwinio.

Adroddiad y trysorydd
Cafwyd adroddiad gan Meirwen gyda'r apêl wedi croesi hanner ffordd.

Cyfarfod nesaf – nos Fawrth, 7fed Hydref.

**Llanboidy**
Cynhaliwyd noson bingo i godi arian tuag at gronfa'r Eisteddfod y flwyddyn nesaf yn y Clwb Cymdeithasol o dan arweiniad medrus Cadeirydd y clwb, Eirian James a diolch iddo am drefnu gwobrau'r noson. Hefyd i Wyn Howells am ei waith arbennig yn galw'r rhifau. Diolch i bawb a helpodd i drefnu'r noson ac i'r rhai gefnogodd i wneud y noson yn llwyddiant.

**ARHOLIADAU GORSEDD CYMRU**

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i ardal 'y Garreg Las' yn y gorllewin yn 2026, beth am fynd ati dros fisoedd y gaeaf i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a thrwy hynny ddod yn aelod o'r Orsedd a chymryd rhan yn ei seremonïau a'i gorymdeithiau lliwgar?

Cynhelir yr arholiadau ysgrifenedig ym mis Ebrill bob blwyddyn a gallwch ddewis o blith nifer o feysydd cyfoes i arbenigo ynddynt: Barddoniaeth, Cerddoriaeth, Cerdd Dant, Iaith, Rhyddiaith, ynghyd ag arholiad arbennig i Delynorion. Mae rhai agweddau ar yr arholiadau Cerddoriaeth a Cherdd Dant yn rhai ymarferol y gellir eu cwblhau ar fideo a/neu yn electronig.

Os hoffech fwy o fanylion am yr arholiadau a'r gwahanol feysydd astudio, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib yn: Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL (e-bost: wgwyn.lewis@btinternet.com), ac fe anfonaf gopi o lyfryn y Maes Astudiaeth atoch.

Beth am roi cynnig arni, felly, er mwyn i chi gael bod yn rhan o seremonïau Gorsedd Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan ddaw i Lantwd yn 2026?

Menter Gorllewin Sir Gâr

## Croeso Cynnes Iawn yng Ngŵyl Canol Dre

Daeth calon Caerfyrddin yn fyw ddydd Sadwrn, 12fed Gorffennaf wrth i'r chweched Ŵyl Canol Dre gymryd drosodd Parc Myrddin, gan gynnig dathliad bywiog o ddiwylliant lleol, creadigrwydd ac ysbryd cymunedol – gyda phob dim yn Gymraeg. Daeth teuluoedd, trigolion ac ymwelwyr ynghŷd i fwynhau diwrnod llawn adloniant byw, dros 40 o weithdai creadigol, gweithgareddau chwaraeon hwyliog a stryd fawr o stondinau prysur yn arddangos ac yn gwerthu cynnyrch lleol. Uchafbwynt y digwyddiad oedd y cyfraniad gwych gan ysgolion lleol; Bro Myrddin, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint, Peniel, Hafodwenog, Llanllwni, Bancyfelin, Llansteffan, Llangain, Llangynnwr, Griffith Jones, Nantgaredig ac Ysgol y Dderwen, gwnaeth eu disgyblion swyno'r cynulleidfaoedd gyda pherfformiadau egnïol a'u doniau cerddorol. Ar y prif lwyfan, cafodd y dorf wledd o dalent, gydag Yws Gwynedd a Huw Chiswell yn cloi'r noson. Ymunodd llu o berfformwyr lleol â nhw, gan gynnwys Pwdin Reis, Iwtopia, Côr Seingar, Alys a'r Tri Gŵr Noeth, a Coron Moron, sef doniau mawr y genhedlaeth nesaf gan wneud y digwyddiad yn arddangosfa o dalent Cymru. Roedd yna grŵp mawr o ddysgwyr y Gymraeg o led-led Cymru ac oddi ar draws y byd i gystadlu yn y Cwis Mawr, am gyfle i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst ac roeddynt yn amlwg wedi mwynhau'r cyfle i flasu diwylliant Cymraeg, a chlywed yr iaith yn cael ei defnyddio ym mhobman.

"Er gwaethaf y tywydd crasboeth, roedd yna awel fach i gynnig rhywfaint o ryddhad ac roedd yn wych cael cynifer o bobl o bell ac agos yn dod i gefnogi'r Ŵyl," meddai Nia ap Tegwyn, Uwch Swyddog Iaith, Menter Gorllewin Sir Gâr. "Roedd yr awyrgylch yn llawn hwyl, cerddoriaeth o'r radd flaenaf a theuluoedd cyfan yn mwynhau ac yn ymlacio mewn lleoliad mor fendigedig. Mae'r Fenter yn ddyledus iawn i bawb a'n cefnogodd ni, yn enwedig ein noddwyr hael a'r rhai a wirfoddolodd gyda ni i wneud y diwrnod yn un mor llwyddiannus."

Mae Gŵyl Canol Dre yn parhau i dyfu fel rhan allweddol o galendr diwylliannol y dref, gan ddathlu traddodiadau cyfoethog a dyfodol deinamig Caerfyrddin a'i chymunedau cyfagos.
"Wedi llwyddiant mawr yr Ŵyl eleni, mae'r gwaith ar godi arian a pharatoi ar gyfer Gŵyl Canol Dre 2026 yn dechrau 'rwan" medd Dewi Snelson, Prif Weithredwr y Fenter. "Os am gyfrannu mewn rhyw ffordd, cysylltwch â Menter Gorllewin Sir Gâr ar ymholiad@mgsg.cymru, neu 01239 712934.





PEIRIANNEG MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH a ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA'R POST
Ffôn: 01994 448221

Gerald Llewellyn a'i Fab
Peirianwyr Gwresogi a Phlymwyr
Am y dewis gorau o ffyrnau i'r gegin
Nwy neu Olew
CELT • AGA • RAYBURN • SORN
Dryslwyn, Clunderwen
Ffôn: 01437 563589

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BANCYFELIN

**Gŵyl Canol Dre**
Diolch o galon i ddisgyblion a rhieni'r Ffederasiwn a wnaeth gefnogi'r ysgolion yng Ngŵyl Canol Dre, Caerfyrddin ar ddiwrnod poeth iawn o haf. Mwynhaodd pawb mas draw yn perfformio ar y llwyfan, yn crwydro o gwmpas y stondinau amrywiol ac yn mwynhau'r awyrgylch arbennig. Diolch i Fenter Gorllewin Sir Gâr am drefnu.

**Trip Sinema**
Cafwyd llawer o hwyl a sbri wrth ymweld â sinema y Vue yng Nghaerfyrddin ar gyfer dathliad diwedd tymor y Ffederasiwn.

**Parti Pitsa**
Mynychodd ddosbarth Cywyn nifer o wersi byw technoleg gwybodaeth eleni o dan arweiniad Meredudd Jones ble cawsant gyfle i greu fideos, animeiddiadau a defnyddio deallusrwydd artiffisial ac ati. Ar ôl danfon tystiolaeth i ADOBE o'r gwaith a grëwyd, enillodd dosbarth Barti, Pitsa a chawsom brynhawn hyfryd yn dathlu a bwyta ffrwyth eu hymdrechion! Diolch Meredudd!

**Beti Wyn**
Diolch o galon i'r Parchedig Beti Wyn James am ddod i ymweld â'r ysgol i gyflwyno Gwasanaeth pwrpasol ar gyfer diwedd tymor ac i ffarwelio gyda disgyblion blwyddyn 6. Cyflwynwyd Feiblau arbennig i ddisgyblion blwyddyn 6 er cof am Miss Sallie Walters. Diolch yn fawr.

**Ffair Haf y Ffederasiwn**
Am noson hyfryd! Cawsom noson wych yn Ysgol Llansteffan ar gyfer Ffair Haf y Ffederasiwn. Mwynhawyd gemau di-ri, cystadlaethau amrywiol, barbeciw blasus, adloniant safonol a llawer o gymdeithasu a chwerthin. Braf oedd gweld cymaint o gefnogaeth wrth ddisgyblion, rhieni, ffrindiau a pherthnasau. Diolch o galon i gymdeithasau rhieni, athrawon a ffrindiau'r dair ysgol am drefnu noson hwylus a bywiog er mwyn dathlu diwedd blwyddyn lwyddiannus.

**Gwasanaeth Ffarwerlio**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Ffarwelio yn ystod wythnos olaf y tymor ac roedd hi'n hyfryd clywed disgyblion blwyddyn chwech yn sôn am eu hatgofion a'u profiadau yn ystod eu hamser yn Ysgol Bancyfelin. Pob lwc i'r criw hyfryd yma wrth iddynt barhau gyda'u haddysg a symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd. Mae wedi bod yn bleser bod yn rhan o'u siwrne addysgiadol yn Ysgol Bancyfelin a dymunwn bob hwyl iddynt yn Ysgol Bro Myrddin ac Ysgol QE High.



**Dechrau blwyddyn addysgiadol newydd**
Croeso cynnes nôl i'r ysgol i bawb! Gobeithio i chi gael gwyliau bendigedig, cyfle i ymlacio a mwynhau gyda theulu a ffrindiau. Rydym yn edrych ymlaen at dymor prysur a chyffrous, yn llawn cyfleoedd i ddysgu, mwynhau a gweithio gyda'n gilydd. Mae'n bleser cael y disgyblion yn ôl ac edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus gyda'n gilydd.
Pob lwc hefyd i'r criw sydd wedi parhau ar eu taith addysgiadol yn Ysgolion Bro Myrddin a QE High. Mae pawb yn yr ysgol yn dymuno pob lwc a llwyddiant i chi ym mlwyddyn 7.

**Disgyblion newydd**
Hoffem estyn croeso cynnes iawn i Reuben ac Arrietty sydd wedi ymuno gyda ni yn Ysgol Bancyfelin. Rydym wrth ein boddau yn eich cael chi fel rhan o'n cymuned ysgol ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn ffynnu yma gyda ni.



# YSGOL BRO BRYNACH

Ar nos Lun 14eg o Orffennaf cafwyd dathliad ugain mlynedd yr ysgol yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy. Roedd y neuadd dan ei sang gyda nifer helaeth wedi troi mas i wylio sioe Capsiwl Amser. Sioe am agoriad yr ysgol ugain mlynedd yn ôl, perfformiodd y disgyblion yn arbennig o dda. Braf oedd croesawu Mrs Ceirios Jenner, pennaeth cyntaf yr ysgol i lywyddu'r noson. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu ac helpu gyda'r noson. Hyfryd oedd cael y cyfle i arddangos gwaith celf y disgyblion a grëwyd gyda cwmni Orielodl, mae'r gwaith yma bellach wedi ei brintio ar gwpanau blastig ac ar werth yn yr ysgol am £3. Cysylltwch os hoffwch brynu un.



Yn y llun gweler disgyblion hynaf a ieuengaf yr ysgol yn torri'r gacen dathlu gyda Mrs Ceirios Jenner. Diolch i Mr Balfour am y gacen.



Yn y llun gweler disgyblion yr ysgol yn eu gwisgoedd yn dilyn y sioe.

Cynhaliwyd gwasanaeth ffarwelio blwyddyn 6 ar y 15fed o Orffennaf. Cafwyd hwyl yn gwrando ar atgofion y disgyblion o'u hamser yn yr ysgol. Cafwyd hefyd seremoni wobrwyo am eu cyfraniad i fywyd yr ysgol;

Mitchell – Technegwr Digidol y flwyddyn
Jac – Athletwr y flwyddyn
Dylan – Garddwr y flwyddyn
Carla – Ymdrechwraig y flwyddyn
Hannah – Cerddorwraig y flwyddyn
Amelia – Creadigol y flwyddyn
Maria – Perfformwraig y flwyddyn
Leo – Dyfal Donc
Lois – Disgybl y flwyddyn
Barnaby – Perfformiwr y flwyddyn

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 yn eu hysgolion newydd.




Llongyfarchiadau i Lois am dderbyn gwobr Mr Henry am ei agwedd at ddysgu, cyfraniad positif ac ymrwymiad i fywyd yr ysgol.

Ar y dydd Mercher, cafwyd parti diwedd blwyddyn ym mhob dosbarth. Cafwyd llawer o hwyl yn dawnsio, canu a bwyta bwyd parti.

Ar ddydd Iau, 17eg o Orffennaf aethon ni ar drip i draeth Pentywyn, er bod y tywydd ddim yn ein ffafrio, cafwyd diwrnod wrth ein bodd yn adeiladu cestyll tywod, chwarae pêl, cael picnic ac hufen iâ. Diolch i'r Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r Ysgol am eu cyfraniad i'r trip.

Ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd hoffwn estyn croeso nôl i'r disgyblion ar ôl Haf braf. Croesawn 6 disgybl newydd i'r ysgol sef Emlyn, Toby, Max, Olivia, Aderyn a Mollie. Croeso mawr i chi a phob hwyl i chi ar eich taith yn Ysgol Bro Brynach.

# YSGOL BRYNCONIN

**Mabolgamapu Ffederasiwn**

Braf oedd cael croesawu Ysgol Maenclochog draw i Frynconin ar Ddydd Llun, 14eg o Orffennaf er mwyn cynnal ein mabolgampau Ffedrasiwn. Cafwyd cyfle i gynnal cystadlaethau amrywiol o dynnu rhaff i ras hir a chafwyd hwyl yn y prynhawn yn cymdeithasu.

**Gwasanaeth Diwedd Blwyddyn**
Braf oedd cael cynnal ein gwasanaeth diwedd blwyddyn ar brynhawn Mercher, 16eg o Orffennaf yng nghwmni'r plant, staff a rhieni.
Braf oedd cael dathlu gwaith da yr Ysgol ac rydym yn falch o gael estyn ein diolchiadau i blant Blwyddyn 6 am bopeth maent wedi rhoi i Ysgol Brynconin dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn gyfle da i ni ddymuno'n dda i'r criw ac hyfryd oedd cael gwrando ar eu hatgofion melys o'r Ysgol.
Cyflwynwyd amryw o dystysgrifau gwahanol adeg y gwasanaeth. Llongyfarchiadau i Cynan Makepeace, Deri Nicholas a Poppy Hammersley am ennill Tlws Goffa Cynghorydd John Thomas ac i Ela Blethyn am ennill Tlws CFfI Clunderwen.

**Dymuniadau Gorau**
Trist oedd ffarwelio â 14 o ddisgyblion Blwyddyn 6 a dymunwn yn dda iddynt yn Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Dyffryn Taf. Pob lwc i Aiden, Anwen, Archie, Caryl, Catrin, Cynan, Deri, Dylan, Hazel, Lillie, Jacob, Jayden, Osian a Poppy. Diolch o waelod calon i deuluoedd plant Blwyddyn 6 am y rhodd hyfryd. Rydym fel Ysgol yn gwerthfawrogi y rhodd yn fawr iawn a byddwn yn ei drysori am byth.



Llais y Disgybl
Buodd y plant yn brysur iawn yn canfasio ac yn pledleisio dros ddiwrnodau cyntaf y tymor newydd. Cynhaliwyd etholiadau dosbarth ar gyfer ein Senedd Ysgol, Cabinet Iaith a Diwylliant, Cabinet Iechyd a Lles, Criw Ffrindiau Ffyddlon a Chriw Darllenwyr Dawnus. Llongyfarchiadau enfawr i bawb cafodd eu hethol ac edrychwn ymlaen i glywed am eu syniadau da ac i gydweithio gyda'n haelodau er mwyn parhau i ddatblygu a gwella Ysgol Brynconin. Datblygu sgiliau llafar Cymraeg - Clybiau Ar Ôl Ysgol
Rydym wedi ail ddechrau ar ein Clybiau Ar ôl Ysgol; Clwb Chwaraeon, Clwb Digidol/Lego, Clwb Creadgiol/Sgiliau. Pwrpas ein Clybiau yw sicrhau bod y plant yn parhau i ddatblygu eu sgiliau, yn arbennig eu sgiliau llafar Cymraeg, a hynny mewn sefyllfaoedd gwahanol tu allan i'r dosbarth. Eleni rydym wedi dechrau Clwb Gwinio ac mae'r plant wrth eu boddau yn gwinio a phrofi sgiliau newydd.
Diolch i'r holl staff am arwain y clybiau hyn gan sicrhau bod cyfleoedd gwahanol yn cael eu rhoi i'r disgyblion.

**Gweithdy Cadw'n Ddiogel – Spectrwm**
Ar Ddydd Mercher, 10fed o Fedi cynhaliwyd gweithdai cadw'n ddiogel gan gwmni Spectrwm. Diolch i'r cwmni am rannu gwybodaeth pwysig am gadw'n ddiogel yn y gymuned.

# YSGOL GRIFFITHS JONES

**Croeso**
Ar ddechrau blwyddyn Ysgol newydd, hyfryd yw croesawu ugain o blant newydd atom. Bydd 13 yn cychwyn yn y dosbarth Meithrin a 7 o blant sydd wedi symud i'r ardal, yn ymuno â dosbarthiadau ar draws yr ysgol. Pob dymuniad da iddyn nhw i gyd fel rhan o deulu Ysgol Griffith Jones.



**Gwasanaeth Gadael**
Croesawyd rhieni Dosbarth Pwyll a Myrddin atom yn ystod wythnos olaf y tymor ar gyfer Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6. Cyflwynwyd rhodd o gyfrifiannell i bob plentyn yn barod ar gyfer Blwyddyn 7. Aeth y plant â ni ar daith hyfryd drwy eu hanes ers dechrau yn y dosbarth Meithrin gan gyflwyno perfformiad penigamp! Pob lwc i bob un ohonynt yn eu hysgolion newydd.



**Hwyl yr Haf**
Manteisiodd dosbarthiadau Cam Cynnydd Un ar heulwen mis Gorffennaf drwy gynnal picnic anferth o sgods a sglods yn yr awyr agored. Roedd yn ffordd hyfryd o orffen eu thema 'Ar lan y môr'.
**Cymdeithas Rieni a Ffrindiau**
Daeth gweithgareddau'r Gymdeithas Rieni a Ffrindiau i ben am y flwyddyn gyda disgo ar thema Hawaii ar gyfer y plant. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu gwaith caled yn cefnogi'r ysgol. Diolch i'w hymdrechion, cafodd pob un o'n teithiau addysgiadol eu hariannu ganddynt eleni gan sicrhau fod pob un plentyn yn cael y cyfle i gymryd rhan.

# YSGOL BECA

Mae e wedi bod yn hyfryd cael croesawu'r plant yn ôl i Ysgol Beca ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd a chyffrous, gobeithiwn fod pawb wedi mwynhau'r gwyliau. Mi fydd Ysgol Beca yn cymryd rhan mewn cyngerdd - Noson Lawen yng Nghaffi Beca ar nos Wener 19eg o Fedi, er mwyn helpu codi arian tuag at achos Eisteddfod Y Garreg Las. Rydym wedi bod yn brysur yn ymarfer rhai o'n hoff ganeuon yn barod i berfformio. Mae athrawes newydd wedi ymuno â ni hefyd sef Miss Jessica Morris. Pob dymuniad da iddi fel rhan o deulu Ysgol Beca.

**Gwener Gwyllt**
Yn ystod ein sesiwn cyntaf o Gwener Gwyllt, buodd plant Dosbarth Cwm Cerwyn yn gweithio'n galed i dacluso ardd yr ysgol. Aeth Dosbarth Carn Gyfrwy ati i grwydro'r ardal tu allan, gan gasglu adnoddau naturiol. Defnyddiwyd rhain i greu enw i roi ar ein harddangosfa. Edrychwn ymlaen at ragor o sesiynau Gwener Gwyllt yn ystod y tymor.

**Sesiwn Cerddoriaeth**
Mwynhaodd y plant sesiwn cerddoriaeth gyda Miss Soons. Dysgon nhw am rythm trwy chwarae gemau a gwrando ar ganeuon ac maent yn edrych ymlaen at ragor o sesiynau yn yr wythnosau sydd i ddod.

# YSGOL LLYS HYWEL

Er mwyn dathlu bod adeilad yr ysgol yn 150 mlwydd oed, rydym yn creu amgueddfa ysgol arbennig i arddangos a dathlu hanes cyfoethog Ysgol Llys Hywel. Rydym yn estyn gwahoddiad cynnes i rieni, cyn-ddisgyblion, staff ac aelodau'r gymuned i'n helpu ni i ddathlu'r garreg filltir ar ddydd Mawrth, 7fed o Hydref 2025.
Helpwch ni hefyd i ail-greu'r atgofion drwy fenthyg neu roi unrhyw arteffactau ysgol o'r gorffennol.
Rydym yn chwilio am eitemau:
- Hen wisgoedd ysgol neu capiau
- Llyfrau ysgol neu llyfrau ymarfer
- Lluniau, adroddiadau neu tystysgrifau
- Unrhyw beth arall o ddyddiau cynnar yr ysgol!

Diolch am fod yn rhan o'n taith trwy amser!




FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444
01994 230456
eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

Celia Vlismas
Optegydd
Castell Newydd Emlyn
01239 711888
Arberth
01834 861373
www,vlismas-opticians.co.uk
Rydym yn croesawu cleifion newydd - boed preifat neu o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Edrychwn ymlaen i'ch gweld



Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA
CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

**LYNDON GEORGE**

**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

**•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER**

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP








**Jones Login**

Teithiau o Safon

*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref 2025** | | |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 15 | *Sioe Gerdd Top Hat, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Nadolig Palas Blenheim a Windsor** | 2 |
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | *Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| **Ionawr 2026** | | |
| Sad 10 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| Sad 17 | **Mamma Mia - Y Parti, 02 Llundain** | 2 |
| **Chwefror 2026** | | |
| Gwe 6 | **Torquay - Cynheswr Gaeaf** | 4* |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Here & Now (Cerddoriaeth Steps)* | 1 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Tina Turner, Caerdydd* | *1* |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mawrth 2026** | | |
| Gwe 20 | **'A Fab 4 Days in Liverpool'** | 4* |
| Sad 21 | *Sioe Gerdd - Barnum, Caerdydd* | 1 |
| **Ebrill 2026** | | |
| Llun 13 | **'Avon's Calling'** | 5* |
| Sul 19 | **Te Prynhawn Brenhinol yn Windsor** | 2 |
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Canolbarth Cudd Iwerddon** | 6* |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Stori Buddy Holly, Caerdydd* | 1 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 1 | **Fforiwr Arfordir y De** | 5* |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Miss Saigon, Caerdydd* | 1 |
| Sul 7 | **Te Prynhawn yng Nghaerfaddon** | 3* |
| Llun 8 | **Gwesty Warner—Thorseby Hall** | 5* |
| Sad 13 | **Rheilffordd Mynydd Aberhonddu** | 1 |
| Mer 17 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - Legally Blonde, Caerdydd* | 1 |
| Llun 22 | **Ynys Mannaw** | 6* |
| Sad 27 | *Drama - Fawlty Towers, Caerdydd* | 1 |
| **Gorffennaf 2026** | | |
| Sad 4 | **Yr Alban - Highland Fling** | 7 |

**2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.**

Gwasanaeth drws i ddrws ar y teithiau yma / Llyfryn 2026 ar gael nawr!
Gallwch archebu ar lein, dros y ffon, neu mewn person yn ein swyddfa

# Gŵyl Bro'r Preseli 2025

**13 - 22 Hydref**

Nos Lun 13 Hydref • 7yh
Llyfrgell Ysgol Bro Preseli
**Agoriad Swyddogol Arddangosfa Corrie Chiswell**
Bydd cyfle i'r cyhoedd ymweld â'r arddangosfa yn Llyfrgell Ysgol Bro Preseli o
**Nos Fawrth - Gwener 14-17 Hydref • 4-6yh ac ar ddydd Sadwrn 18 Hydref • 10-12yb**





Nos Fawrth 21 Hydref • 7:30yh
Theatr y Gromlech
**Theatr Bara Caws yn cyflwyno**
**'Oes rhywun wedi gweld y Pernod King?'**
*(Tocynnau ar werth yn Siop Sian ac Awen Teifi neu trwy dudalennau Facebook ac Instagram Gŵyl Bro'r Preseli)*

Dydd Gwener 17 Hydref • 10:30yb
O Sgwâr Cilgerran
**Taith gerdded i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg o dan arweiniad Hedd Ladd Lewis**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Sir Benfro
Pembrokeshire

Nos Wener 17 Hydref
Clwb Rygbi Crymych
**Noson Gomedi** *(tocynnau ar werth drwy'r Clwb Rygbi)*

Nos Lun 20 Hydref • 7:30yh
Llyfrgell Ysgol Bro Preseli
**Sgwrs gyda Steffan Messenger, Gohebydd Amgylchedd BBC Cymru**



menter iaith Sir Benfro

Nos Fercher 22 Hydref • 7:30yh
Canolfan Hermon
**Cwis Wês Glei**
**yng nghwmni'r Cwis Feistr - Adam yn yr Ardd**


CYFRES Wenfro

# Lliwiau'r Hydref

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Cyn hir, bydd dail yr hydref yn garped o liw ar lawr y fro, a'r saith cysgadur yn cysgu'n glyd dros y gaeaf.

**Mae'r ystlum cysglyd eisoes yn ei ogof dywyll.**
**Fedrwch chi ddarganfod pa gysgadur sy'n cysgu o dan y dail oren, coch, brown, melyn, gwyrdd a phorffor?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/10/25**

**Leia Mair Jenkins, Meidrim, yw enillydd Cystadleuaeth Blodau'r Enfys**

Ateb: 1–Daffodil, 2–Blodyn Haul, 3–Briallu, 4–Dant y Llew, 5–Pabi Cymreig, 6–Blodyn Menyn, 7–Eithin

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## TEITHIAU 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun 6ed Hyd | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £405 | 5 Diwrnod |
| Gwe 10fed Hyd | Port Isaac, Padstow, Mevagissey a LOOE ar Afordir CERNYW | £370 | 4 Diwrnod |
| Sul 19eg Hyd | Rhydychen / Oxford, Palas Blenheim a ardal Midsomer Murders | £540 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £385 | 4 Diwrnod |
| Sul 26ain Hyd | ??? TAITH DDIRGEL i IWERDDON ??? | £685 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain Hydref | LUDLOW a IRONBRIDGE | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 3ydd Tach | BELGRAVE SANDS " Torquay & Tinsel" | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 7fed Tach | DERBY ac ymweld a Marchnad Nadolig CHATSWORTH HOUSE | £335 | 3 Diwrnod |
| Iau 13eg Tach | "HOLLY and MISTLETOE yn LLANDUDNO | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 21ain Tach | Marchnadoedd Nadolig MAENCEINION a CAER | £305 | 3 Diwrnod |
| Mon 24ain Tach | Hud y NADOLIG yn MORECAMBE | £520 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Tach | TREN y GOLEUADAU NADOLIG yn TORQUAY | £80 | 4 Diwrnod |
| Gwe 5ed Rhag | PENWYTHNOS NADOLIGAIDD YN LLUNDAIN | £325 | 3 Diwrnod |
| Gwe 5ed Rhag | TREN y GOLEUADAU NADOLIG yn PAIGNTON | £380 | 4 Diwrnod |
| Gwe 12fed Rhag | CAROLAU NADOLIG, NEUADD FRENHINOL ALBERT, LLUNDAIN | £420 | 3 Diwrnod |
| Gwe 12fed Rhag | NADOLIG CYNNAR yn BABBACOMBE | £320 | 4 Diwrnod |
| Llun 15fed Rhag | Marchnadoedd NADOLIG BRUGES, GHENT a LILLE | £695 | 5 Diwrnod |
| Maw 30ain Rhag | Dathlwch y FLWYDDYN NEWYDD YN PAIGNTON | £585 | 4 Diwrnod |
| Maw 30ain Rhag | Dathlwch DYDD CALAN gyda'r Gwyddelod yn WATERFORD | £595 | 4 Diwrnod |

## 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 9fed Ion | PENWYTHNOS o fwynhau yn y BELGRAVE SANDS, TORQUAY | £290 | 4 Diwrnod |
| Gwe 23ain Ion | Cerddoriaeth Teyrnged llawn hwyl yn BABBACOMBE | £315 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Chwef | LLANDUDNO Teithio'r moroedd mawr dros nos i wahanol wledydd | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 13eg Chwef | WESTON SUPER MARE | £345 | 4 Diwrnod |
| Llun 16eg Chwef | DISNEYLAND PARIS (Amser gwyliau Ysgol, prisiau teulu) | Ffoniwch | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Chwef | (Newydd) HARROGATE "Super Singles" Ystafelloedd Sengl yn unig | £560 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Chwef | CAERNARFON Clive a'i Ffrindie yn rocio Gwesty'r CELT (Hwyl di ri) | £280 | 3 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 1 - Stillorgan) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 2 - Bonington) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN (3 - Enniscorthy) | £385 | 4 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mawrth | (Newydd) Penwythnos dirgelwch y llofruddiaeth yn TORQUAY | £385 | 4 Diwrnod |
| Iau 12fed Mawrth | Darganfyddwch ardal DOC MARTIN yn ST AGNES, arfordir CERNYW | £450 | 5 Diwrnod |
| Llun 16eg Mawrth | (Newydd) DAWLISH WARREN ac arfordir DYFNAINT | £445 | 4 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mawrth | LOOE, arfordir Cernyw, a'r "EDEN PROJECT" | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mawrth | Penwythnos yn EFROG a'r ardal | £350 | 4 Diwrnod |
| Maw 7fed Ebrill | ???? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL ???? | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 10fed Ebrill | TORQUAY, TOTNES a tê a chacen ar daith Cwch ar yr Afon Exe | £385 | 4 Diwrnod |
| Mer 15fed Ebrill | Blas o Gymru yng Nghwesty'r TYNEDALE, LLANDUDNO | £590 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Ebrill | (Newydd) CHELTENHAM, TEWKESBURY a'r COTSWOLD's | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ebrill | (Newydd) PASHLEY MANOR - "Tulip Festival" | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 27ain Ebrill | (Newydd) BOURNEMOUTH a'i Chelf Ysblennydd | £515 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus i Thom Davies yn 4 oed ar Fedi 29ain. Mae Thom yn fab i Rhodri a Hannah Davies, Plas Canol, Llanybri, yn frawd mawr i Tobi ac yn ŵyr i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Tâf, San Cler. Penblwydd Hapus wrth y teulu i gyd.



Penblwydd hapus yn 9 oed i Gwenno Rebecca Jones, Blaenau ar 19fed o Fedi. Llawer o gariad wrth Dad, Mami, Sara, Mamgu a Tadcu Bancyfelin a’r teulu i gyd.





Penblwydd hapus i Alaw Fflur Evans, Llangyndeyrn a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 10 oed ar Hydref 8fed.

Cariad mawr wrth Dadi a Mami; Cari; Ffion; tadcu a mamgu Cwm-felin a'r teulu i gyd. xxx




Penblwydd Hapus iawn i Tomos a ddathlodd ei benblwydd yn 5 oed nôl yn mis Gorffennaf. Cariad mawr, Mam, Dad, Celt a'r teulu i gyd! Xxx

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab
Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282



# CHWARAEON



## Clwb Rygbi Hendygwyn

**Tim Cyntaf**
Mae’r tymor newydd wedi dechrau ac mae’r tim  cyntaf wedi chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn Athletic Castell Nedd a Prifysgol Met Caerdydd, gan golli’r ddwy gem.

Colli wnaethant hefyd ar Medi 6ed yn erbyn Quins Penfro 39-27, yng Nghwpan Sir Benfro, y bechgyn yn ei gadael hi fel arfer tan yr 20 munud diwethaf cyn chwarae ei rygbi gorau.

Mae capten newydd gennym tymor hwn sef Daniel Bennet a dau hyfforddwr newydd sef Gareth Davies o Hwlffordd, sydd wedi symud lan i fod yn brif hyfforddwr a Steff Evans, hyfforddwr y blaenwyr. Hyderwn y bydd pethau’n gwella fel mae’r tymor yn mynd ymlaen. Cynhelir ymarferion bob nos Fawrth a nos Iau ar Barc Llwyn Ty Gwyn o 7 tan 8.30 o’r gloch. Ma wastod croeso cynnes i chwaraewyr newydd ymuno gyda ni.

**Tim Menywod**
Nid yw’r tymor wedi dechrau eto, ond bydd y gem gyntaf ar ddydd Sul, Medi 14eg, adref yn erbyn Gweilch Abertawe - West Swansea Hawks yn adran y bencampwriaeth.

Capten y tim yw Macey Bowen, a Cara Davies yn is gapten. Y prif hyfforddwr yw Dafydd Cox a Richard Davies o Aberteifi yn hyfforddi’r cefnwyr. Bydd y menywod yn ymarfer bob nos Iau ar Barc Llwyn Ty Gwyn o 6.30 tan 7.30 o’r gloch.

**Hwb**
Mae’r Hwb wedi dechrau, ma gennym dimau dan 12, dan 14, dan 16, dan 18 ac hyfforddwyr ar gyfer pob tim.
Dan 18 = Sarah Morris - Alex Phillips
Dan 16 - Nicole Davies
Dan 14 - Kate Richards a Mike Georgiou
Dan 12 - Arwel Beynon a Mark Jones
Bydd pob oedran yn ymarfer bob nos Fercher o 6 tan 7.30 ar Barc Dr Owen.

Os oes unrhyw un a diddordeb, cysylltwch a Suzanne Davies 07966 694323 neu Nicole Davies 07990 569852.

**Susanne Davies**



## Clwb Rygbi San Clêr



Fe wnaethom baratoi ar gyfer y tymor newydd yn Adran 1 y Gorllewin drwy chwarae dwy gem gyfeillgar. Y gem gyntaf adref yn erbyn Skewen ar Awst 16eg, sy’n chwarae yn Adran 1 Canolog.  Cafodd y garfan cyfan gyfle i chwarae, gan gynnwys nifer o chwaraewyr ifanc sy'n symud fyny i rygbi dynion. Daeth torf dda ynghyd i gefnogi a cafwyd gêm agored o safon da ei chwarae wrth i'r ddau dîm fwynhau didddanu’r dorf yn yr heulwen braf. Ar ol bod ar ei hôl hi 10 - 19 ar ddiwedd yr hanner cyntaf, gwnaethom enill 29 - 19. Diolch i Skewen am deithio lawr atom - mwynhawyd noson dda yng nghwmni ein gilydd wrth i Llew Davies ein diddanu. Diolch i Menter Gorllwein Sir Gar am ei cefnogaeth. Yn dilyn haf hir sych, roedd yr amodau yn dra gwahanol ar gyfer ein hymweliad a Castell Newydd Emlyn ar Awst 30ain. Roedd hon yn gem heriol iawn i ni yn erbyn gwrthwynebwyr cryf ae yn Adran Pencampwriaeth y Gorllewin tymor hwn sy’n chwarae yn Adran Pencampwriaeth y Gorllewin tymor hwn.

Er gwaetha'r amodau, roedd hi'n gem agos gyda'r sgor yn 7 -7 ar yr egwyl, gyda Castell Newy yn sgorio cais wedi ei rhyngipio, i fynd ar y blaen ar ddechrau'r ail hanner. Er gwaetha cael amser caled yn y sgrym, gwnaeth y Seintiau frwydro'n galed, ond er iddynt greu rhai cyfleoedd, methwyd croesi'r llinell gais. Llwyddodd Castell Newy i sgorio dau gais hwyr i selio'r fuddugoliaeth. Bu'n brofiad da i'r Seintiau gael chwarae yn erbyn gwrthwynebwyr o safon uwch ac roedd hi'n wych gweld nifer o chwaraewyr ifanc yn elwa o'r profiad hefyd.

Gwnaeth y tim ieuenctid baratoi ar gyfer y tymor newydd drwy chwarae i ffwrdd yn erbyn Cwins Caerfyrddin, gan ennill 24 – 26. Profodd ei gem i ffwrdd yn erbyn Dinbych y Pysgod yn fwy o her wrth iddynt golli 24 – 12. Bu'r ddwy gem yn baratoad da ar gyfer y tymor.

Cychwynodd y tymor ar Medi 6ed wrth i ni groesawu Llanbedr Pont Steffan i Barc Griffith Jones ac fel roeddem yn disgwyl, roedd hon yn gem agos. Daeth cynulleidfa fawr ynghyd i gefnogi a roedd Llanbed yn arwain 0 – 3 ar yr egwyl, ar ol chwarae gyda'r gwynt yn yr hanner cyntaf.

Roedd amddiffynfeydd y ddau dîm yn cyfyngu ar gyfleoedd sgorio, er bod y Seintiau wedi mwynhau cyfnodau yn 22 y gwrthwynebwyr, ond methwyd fodd bynnag â manteisio. Aeth y Seintiau ar y blaen yn gynnar yn yr ail hanner wrth i Dan Griffiths sgorio trosgais i arwain 7 - 3 ac roedd yn rhaid iddynt gael ychydig mwy o gyfleoedd sgorio gan ddefnyddio'r gwynt. Pob clod i Llanbed, gwnaethant aros yn y gêm drwy sgorio cais heb ei drosi i arwain 7 – 8, ar ôl nifer o giciau cosb a arweiniodd at gardiau melyn. Wrth i ni agosáu at y 10 munud olaf, daeth 2 garden melyn wnaeth gostu'n ddrud i ni, er i Che Thomas gicio gôl adlam i arwain 10 – 8. Roeddwn yn gobeithio bod y fuddugoliaeth wedi ei sicrhau ac er iddi ymddangos bod y gem ar ben, gwnaeth y dyfarnwr ganiatáu y chwarae i barhau am 10 munud arall, a gyda'r cardiau melyn, roedd hyn wedi caniatáu i Lanbed gael un cyfle olaf i ymestyn amddiffyn y Seintiau i sgorio ar y diwedd ac i ennill y gêm 10 - 15.

Fe wnaeth y tim ieuenctid chwarae adref yn erbyn Athletic Caerfyrddin gan ennill 32 – 8 mewn gem gwpan Sir Gaerfyrddin.

Gemau'r tim cyntaf
Medi 20fed - Talacharn ( bant )
27ain - Ystradgynlais (bant) - Cwpan
Gemau'r ieuenctid
Medi 13eg Pontyberem (bant)
20fed - Llangennech (adref)
27ain - Yr Amman Utd (bant)

Hoffwn ddiolch o galon i'n noddwyr a'n cefnogwyr ar ddechrau'r tymor newydd fel hyn.

**Gwyndaf Williams**



**Lluniau**
**Chris Rees**



# Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2025-56**
Mae tymor 2024-25 bellach wedi dechrau i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf yn dechrau ar Awst 12fed, ac ers hynny wedi chwarae 5 gêm yn y gynghrair. Dechreuodd tymor yr ail dîm ar ddydd Sadwrn, Awst 30ain. Rydym hefyd yn falch bod ein hadran iau yn parhau gyda'r tymor yn dechrau ar Ddydd Sadwrn, Awst 6ed.

**Tîm 1af**
Mae ein tîm cyntaf yn parhau yn Adran 1 Ceredigion am 2025-24, a hynny o dan arweinyddiaeth Gethin Scourfield, gyda Dafydd Makepeace yn parhau fel hyfforddwr ar y tîm gyda chefnogaeth gan Rob Morgan a Bruce Scourfield.

Ers Awst 12fed, mae'r tîm wedi chwarae 5 gem. Bydd ein hymarferion ar gyfer mis Medi bob nos Fawrth ar Gae Dandre, Llanboidy am 18.30yh. Croeso cynnes i bawb. Mae'r canlyniadau hyd yma isod:

Awst 12fed: Castell Newydd Emlyn 2-1 Llanboidy (Gethin Scourfield)
16eg: Llanboidy 5-5 Maesglas (Gethin Scourfield x 4, Ethan Ryan)
26ain: Llandysul 2-1 Llanboidy (Gethin Scourfield)
30ain: Llanboidy 1-6 Llandudoch (Gethin Scourfield)
Medi 6ed: Felinfach 4-1 Llanboidy (Cian Strudley)

**2il Dîm**
Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2025-26 o dan arweinyddiaeth Jason Reynolds. Diolch yn fawr iawn i Chris Bowen sydd wedi bod yn arwain yr ail dîm dros y tymhorau diwethaf. Bydd Chris yn parhau i chwarae. Mae'r ail dîm wedi chwarae dwy gêm hyd yma a hynny yn erbyn Felinfach a Crymych. Bydd ein hymarferion ar gyfer mis Medi bob nos Fawrth ar Gae Dandre, Llanboidy am 18.30yh. Croeso cynnes i bawb.

Awst 30ain: Felinfach 0-2 Llanboidy (Jason Reynolds, Lewis Thompson)
Medi 6ed: Llanboidy 1-5 Crymych (Lewis Thompson)

**Adran Iau**
Rydym yn edrych ymlaen at barhau gyda datblygiad ein timoedd iau yn ystod 2025-26. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y flwyddyn diwethaf, yn ogystal â dechrau ymarferion dros yr haf. Rydym o hyd yn chwilio am chwaraewyr newydd. Croeso cynnes i bawb! Mae'r holl wybodaeth ynglŷn â'r ymarferion gyferbyn.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

**Rhodri Lewis**




| TÎM | DIWRNOD | AMSER | LLEOLIAD |
|---|---|---|---|
| DAN 6 (BL 1) | MAWRTH | 05.45-06.30YH | LLANBOIDY |
| DAN 8 (BL 2+3) | MAWRTH | 05.45-06.30YH | LLANBOIDY |
| DAN 10 (BL 4+5) | MAWRTH | 06.00-07.00YH | BLAENWAUN |
| DAN 12 (BL 6+7) | LLUN | 06.00-07.00YH | LLANBOIDY |
| DAN 14 (BL 8+9) | LLUN | 06.00-07.00YH | LLANBOIDY |